

Y LLOFFWR



PAPUR BRO
CYLCH DINEFWR

~~~  
RHIF 327 - 80c

~~~  
MEDI 2011

~~~  
[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)



Lluniau : William Theophilus

## BWRLWM HAF BRO DINEFWR

Gŵyl Bro Dinefwr 2011 ~ Sioe C.Ff.I Llangadog ~ Sioe Trap ~ Meddygon Myddfai ~ a llawer mwy!

Bryn Fôn



Eifion Price o'r band Jac y Do



Aeron Pughe o Hufen Iâ Poeth



Elin Fflur







## ~ LLWYDDIANT C.F.F.I LLANGADOG ~



Clwb Ffermwyr Ifanc Llangadog yn dathlu'r flwyddyn lwyddiannus – adroddiad llawn ar dudalen 25.

Llun : William Theophilus



Llywydd Sioe Llangadog, Eifion Jones, Brynmelyn gyda Dylan Davies, Cadeirydd y Clwb ac Aelod Hŷn ac lau'r Flwyddyn, Luned Henry a Caryl Howells.

Llun : William Theophilus



David Richards, Fferm Ashfield, Llangadog yn derbyn cwpan oddi wrth y Llywydd, Eifion Jones, yn yr Adran Wartheg Odro.



Aelodau Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr yn dathlu ennill Tlws Undeb Amaethwyr Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru.

**mae gen ti ddewis...** i ddefnyddio gwasanaethau **Cymraeg**



Cysylltwch â Galw Sir Gâr drwy ffonio  
01267 234567 • [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)



## Meddygon Myddfai - Traddodiad sy'n Parhau

Eleni ar ddydd Sadwrn, 2 Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod arbennig ym Myddfai - cyfarfod i ddathlu Meddygon Myddfai a'r ffaith bod y traddodiad yn llewyrchus yn yr unfed ganrif ar hugain.

Cynhaliwyd y gweithgareddau yn y neuadd newydd a gafodd ei hagor gan Dywysog Cymru ar y dydd Iau blaenorol. Daeth 150 o bobl ynghyd ar ddiwrnod perffaith o haf. Cafwyd heulwen o fore tan nos, roedd arogl cynaeafu gwair o gwmpas a'r boda forch yn hedfan uwchben. Teithiodd rhai o bellter mawr, o Loegr, yr Alban ac o'r Unol Dalaethau. Roedd hefyd gymysgedd o bobl yn y gynulleidfa, gan gynnwys meddygon wedi eu codi yn yr ardal, a phobl â diddordeb yn y traddodiad unigryw hwn.

Ar ôl cinio ardderchog cafwyd siaradwyr o safon uchel. Agorodd yr Athro Sioned Davies gyda Chwedl Llyn y Fan Fach a'r ffordd y dysgodd y forwyn o'r llyn rinweddau planhigion ac egwyddorion meddygaeth i'w mab hynaf Rhiwallon. Daeth Rhiwallon a'i dri mab yn feddygon enwog gan roi bod i linach meddygon Myddfai. Clywsom gan y Dr Morfydd Owen am y dystiolaeth hanesyddol sydd ar gael mewn llawysgrifau a llyfrau hynafol. Nid llysieuwyr oeddynt ond meddygon a chanddynt safonau uchel yn derbyn tâl da. Y trydydd siaradwr oedd yr Athro Terry Turner, a greodd arddangosfa am y Meddygon yn ein Gardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne. Disgrifiodd rai o'r triniaethau a ddefnyddiwyd.

Aeth Dr Brinley Jones â ni ymlaen i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth ddatgan fod bro Meddygon Myddfai wedi dal i gynhyrchu meddygon o safon uchel. Canolbwyntiodd ar Syr John Williams (1840-1926) o Wynfe, heb amheuaeth y cymwynaswr meddygol mwyaf i'r genedl Gymreig. Dyma sefydlydd y Llyfyrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Datblygodd Dr Donald Williams y thema hon wrth siarad am Ifor Lewis (1895 – 1982) a anwyd yn Llanddeusant. Meddyg enwog ac arloeswr llawfeddygol pwysig. Soniodd am ddau fachgen o Langadog a fu'n ymgynghorwyr yn Ysbyty Barts yn Llundain hyd yn ddiweddar iawn, Gareth Rees llawfeddyg y galon a Glyn Evans, obstetregydd, a'r ddau yn bresennol. Gorffennodd drwy ddweud fod pentref Myddfai wedi dal i gynhyrchu meddygon arbennig. Yn y gynulleidfa roedd Dr John Davies, Guildford, Dr Heti Davies, Caeredin a'r Athro Robin Jones o Seattle, y tri wedi eu codi yn y pentref.

Robin yw'r cadarnhad perffaith fod y traddodiad yn fyw ac yn iach heddiw. Dyma fab fferm Llwyn Meredydd Feddyg, Myddfai, ac sy'n dod o linach y Meddygon ac yn awr yn Athro Oncoleg yn Seattle - canolfan flaenllaw iawn mewn astudiaethau cancr. Un arall a oedd yn y cyfarfod oedd Geraint Morgan a gyfansoddodd englyn am arwyddocad y dydd.

### Meddygon Myddfai 2011

Yn ddidwyll i'r traddodiad - rhoi dolur

I'w dwylo a'u cariad,

Yn raenus eu cyfraniad

Gallu'u hil yn dwyn gwellhad.

Cafwyd diwrnod o ddathlu hapus iawn, gyda phawb wedi mwynhau achlysur bythgofiadwy.



*O'r chwith i'r dde yn y cefn: Mr Gareth Rees, Dr Glyn Rees, Mr David A Jones, Dr Richard Annear, Dr Bruce Lervy, Athro Robin Jones, Dr John Davies, Dr Sion Edwards. Rhes Flaen: Dr Howard Davies, Miss Olwen Harries, Dr Donald Williams, Dr Ann Rhys, Dr Carole Williams, Dr Anna Davies, Mr Glyn Evans, Dr Heti Davies, Dr Gordon Thomas*  
Lluniau: Mark Revitt

## YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Bu'n Eisteddfod dda yn Wrecsam bell yn ôl y sôn ac fe fu rhai o'r de yn llwyddiannus yno. O blith yr eitemau llwyfan rhyw ddwsin o wobrau cyntaf, ail a thrydydd a gipiwyd gan gystadleuwyr o Sir Gâr.

Yn yr adran lenyddol gwobrwyir y cyntaf yn unig a daeth llwyddiant i ychydig yn unig o blith beirdd a llenorion y sir. Llongyfarchiadau i'r Parch. Kenneth M. Lintern, Clydach (Llangadog gynt) ar ennill yr englyn. Hefyd noder i Meirion Wyn Jones, Aberhonddu ennill Tlws y Cerddor a Threfniant i unrhyw Alaw Werin; ac i John Meurig Edwards, Aberhonddu ennill ar y Stori Arswyd a Llythyr dychanol at wleidydd. Dau wyneb cyfarwydd wnaeth ennill y Delyneg a'r Soned sef Aneirin Karadog, Pontyberem a Tudur Dylan Jones, Tanerdy. Dyma rai o enillwyr llwyfan gyda chysylltiad â bro'r Lloffwr:

Côr Cymysg dros 45 mewn nifer: 1 – Côr Llanddarog a'r Cylch.  
Unawd Telyn dan 16 oed: 1 - Rachel Edwards, Llanymddyfri.  
Monolog 12 – 16 oed: 1 – Siân Elen Williams, Pencarreg.  
Unawd Llinynnau dros 19 oed: 1 - Davinder Singh, Llandybie.  
Unawd yr Hen Ganiadau: 1 – John B. R. Davies, Llandybie.  
3 – Ann Davies, Llanarthne.

Unawd Bas dros 25 oed: 2 – Emyr Jones, Felingwm.  
Unawd Soprano: 3 – Helen Gibbon, Capel Dewi.  
Llefaru o'r Ysgrythur: 3 – Saran Richards, Llanddarog.  
Llongyfarchiadau iddynt oll am eu camp. Tybed a fydd traffyrdd y de yn denu mwy i Fro Morgannwg yn 2012!



## ABERGORLECH



### Mabolgampau

Ar noson heulog braf daeth criw da o blant ac oedolion ynghyd i Fabolgampau blynyddol Abergorlech a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf ar Ddôl Glancothi trwy garedigrwydd Dewi Thomas, Fferm Glancothi. Llywydd y noson oedd Patricia Talbot, Esgairffordd a hi fu'n cyflwyno'r prif wobrau. Meistres y corn siarad oedd Eleri James, Prifathrawes Ysgol Gynradd Brechfa, dewis pwrpasol iawn gan ei bod yn adnabod nifer fawr o'r cystadleuwyr. Dilynwyd y rasys gyda ras hwyaid a thwrnament coets. Noson bleserus iawn.

## BRECHFA



### Cyngerdd yr Ysgol

Cynhaliwyd cyngerdd diwedd blwyddyn Ysgol Brechfa yn neuadd y pentref ar nos Iau olaf y tymor.

Bu'r plant wrthi yn arddangos eu doniau, ac yn wir cafwyd gwledd!

Gwelwyd y plant hynaf wrth y recorders, cafwyd unawd a deuawd gitâr, cafwyd deuawd a thriawd fiolín ac unawdydd ar yr utgorn. Bu'r plant lleiaf yn canu clychau ac offer taro ac yn adrodd stori.

Bu holl blant yr ysgol yn cymryd rhan mewn gwahanol bartïon canu ac amryw ohonynt yn cymryd at rannau arbennig. Cafwyd unawd hefyd gan Carys Davies, sy'n hyfforddi'r plant.

Uchafbwynt y noson oedd perfformiad o gerddoriaeth creadigol ar thema 'Y Farchnad'.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Meinir Davies am ein cynorthwyo gyda'r cyfeilio a dymunwn wellhad buan i Geraint Rees.

Diolch yn fawr i bawb, yn wir roedd yn gyngerdd gwerth chweil!

### Eglwys Teilo Sant

Bu llawenydd mawr yn Eglwys Teilo Sant, Brechfa ar fore Sul 31 Gorffennaf pan agorwyd yr Eglwys ar ôl y difrod mawr a achoswyd i fynedfa'r Eglwys gan y rhew caled nôl ym mis Rhagfyr ac Ionawr. Roedd yr Eglwys ar gau am chwe mis ac roedd rhaid cynnal y gwasanaethau yn neuadd yr Eglwys dros dro. Dymuna swyddogion Teilo Sant ddiolch i aelodau a ffrindiau'r Eglwys sydd wedi cyfrannu at gronfa trwsio'r adeilad.

## CAIO



### Mrs Gwen Williams

Yng nghartref ei merch a'i mab yng nghyfraith, Anell Villa, Crugybar ar 3 Awst hunodd **Mrs Gwen Williams**, Plasnewydd, Llansawel. Er hynny, fel *Gwen Nymber Two Caio* yr adnabuwyd hi ers blynyddoedd.

Cafodd Gwyneth Rosaline Locke ei geni yn ardal Treboeth, Abertawe i deulu oedd yn flaenllaw yng ngweithgarwch Byddin yr Iachawdwriaeth, achos a arhosodd yn agos at ei chalon gydol ei hoes. Oherwydd cyflwr iechyd ei mam treuliodd gryn amser gyda'i modryb ac ewythr yng Nghwmpreddfa, Caio gan fynychu Ysgol Caio am gyfnod. Bu'n brofiad anodd gan mai Saesneg oedd ei hunig iaith yr adeg honno. Erbyn dechrau'r ail ryfel byd roedd hi a'i brawd Jim, er diogelwch, yn byw gyda rhai o'r tylwyth yng Nghrugybar ac yn Llansadwrn gan feistrolî'r Gymraeg yr adeg honno. Symudodd i Gaio i gadw tŷ i Jack Williams ac yna ei briodi. Yno codwyd y plant Meirion, Michael, Christine a Susan. Wedi colli ei phriod, Jack bu'n cynorthwyo

ei brawd a'i briod, a symudodd i Lansawel i ofalu amdano yn ei henaint.

Yr Hybarch. Hywel Jones a'r Parchedig Ganon Roger Hughes, Deon bro fu'n arwain y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Caio ar 12 Awst. Soniwyd yn y deyrnged fel bu Gwen yn rhan allweddol o fywyd y pentref gan roi o'i hamser yn gyson i gefnogi pob gweithgarwch. Roedd ei charedigrwydd a'i pharodrwydd i gynorthwyo eraill yn nodweddion amlwg o'i phersonoliaeth gyfeillgar, a'i glendid a'i thaclusrwydd yn esiampl i bawb. Roedd ei phresenoldeb ffyddlon a'i chonsyrn cyson am Eglwys Caio a Llansawel yn rhan annatod ohoni. Rhoddodd ofal tyner i'w phlant a'u teuluoedd a chafodd hithau dros y blynyddoedd diwethaf ofal cyson ganddynt hwy.

Yn dilyn, cafwyd gwasanaeth i'r teulu yn unig yn Amlogsgfa Treforus. Estynnir cydymdeimlad â Meirion a Joan, Michael ac Ann, Christine a Geler, Susan ac Arun, yr wyron a'r gorwyron a'r perthnasau eraill yn eu colled a'u hiraeth.

## CRUGYBAR



### Mrs A.M.Morris

Ar ddydd Iau 21 Gorffennaf hunodd **Mrs. Annie Margaretta (Anita) Morris** yn ei chartref Llwynonn, Dyffryn Anell, Crugybar. Anita oedd yr hynaf o un ar ddeg o blant teulu Penbanc, Rhydcymerau. Wedi gorffen ei haddysg aeth i weithio i Lamed lle cyfarfu â'i diweddar briod John. Dechrau eu byd yn Ffaldybrenin lle ganwyd y plant Jean, Clive a Colin. Symudodd y teulu wedyn i Llwynonn, Crugybar. Yn fuan dechreuodd rannu'r cinio i blant Ysgol Crugybar ac yn 1971 penodwyd Mrs Morris yn gogyddes yn Ysgol Caio. Bydd llu o blant yn cofio amdani yno hyd ei hymddeoliad yn Hydref 1989. Roedd wrth ei bodd yng nghwmni'r plant. Daeth llu o berthnasau a ffrindiau i'r gwasanaeth angladdol cyhoeddus yn Eglwys Caio ar 1 Awst a oedd yng ngofal y Deon Bro, Y Parchedig Ganon Roger Hughes yn cael ei gynorthwyo gan Mr John Walford. Yna'n dilyn cafwyd gwasanaeth preifat i'r teulu yn Amlogsgfa Treforus.

Estynnir cydymdeimlad â'r plant Jean, Clive a Colin, y plant-yng - nghyfraith Alan ac Anne, yr wyron Aled, Lowri, Amanda, Aaron, y brodyr a'r chwiorydd a'r holl deulu.

### Genedigaeth

Hyfryd clywed bod Hefin ac Awenna Williams, Glanrhyd yn dadcu a mamgu unwaith eto pan anwyd merch fach gyntaf i'w merch Sian a'i phriod David Williams.

### Graddio

Llongyfarchiadau i dri o aelodau ifanc y Capel sydd wedi graddio'r haf yma.

Graddiodd Owen Griffiths, Pistyllgwyn o Brifysgol Caerfaddon gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Fferylliaeth a gwobr arbennig am ei waith. Erbyn hyn mae wedi dechrau ar ei waith yn Fferyllfa Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Hyfryd oedd gweld Owen, sy'n lysgennad ifanc Cymdeithas y Cobiau a'r Merlod Cymreig, yn cael ei gyfweld gan Wyn Gruffydd o'r Sioe Ryngwladol gyntaf i'w chynnal yng Nghymru.

Bu Catrin Morgan, Llwynfallen ac Emyr Richards, Maesglas yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cafodd Catrin radd 2:1 mewn Hanes ac mae'n gweithio ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant cyn mynd ymlaen ymhellach â'i hastudiaethau. Gradd 2:2 gafodd Emyr mewn Gwyddoniaeth Chwaraeon. Mae Emyr yn bwriadu teithio'r byd cyn parhau â'i astudiaethau.





Llongyfarchiadau hefyd i Sian Williams, Sŵn y Nant a lwyddodd i gael gradd anrhydedd dosbarth cyntaf yng Ngholeg Pontypridd mewn Cemeg. Yn yr Hydref bydd yn cychwyn yng Ngholeg Abertawe ar flwyddyn o hyfforddiant ar gyfer darpar athrawon.

Dymunwn i chi gyd lwyddiant yn eich gwahanol feysydd.

### Capel

Hyfryd gweld y Parch D. Huw Roberts wedi gwella'n ddigon da i ail gydio yn ei waith. Ein dymuniad ni i gyd yw eich gweld yn parhau i wella.

Mae ieuenctid y Capel yn trefnu Cyngerdd a Charolau yng Nghapel Crugybar ar Nos Wener, 8 Rhagfyr. Gwnewch nodyn o'r dyddiad.

### Cyrraedd adref

Da gweld Mathew Jones, Borthyn nôl gartref wedi treulio cyfnod hir yn crwydro drwy'r gwahanol gyfandiroedd. Croeso nôl Mathew!

### Swydd newydd

Pob dymuniad da i Marie George, 2 Dyffryn Anell sydd wedi cael dyrchafiad arall yn ei gwaith gyda'r Comisiwn Coedwigaeth - cydnabyddiaeth deilwng o'i gwaith eisioes gyda'r Comisiwn. Mae ei chymar Ian O'Connor hefyd wedi dechrau swydd newydd gyda chwmni *Genus*. Pob dymuniad da i'r ddau.

## CWM-DU



### Raffl Y Lloffwr

Trefnwyd raffl i godi arian ar gyfer Y Lloffwr yn ystod yr haf. Diolch i bawb am eu rhoddion ac am godi £46 tuag at goffrau'r Lloffwr.

### Capel Providence

Ar nos Sul, 24 Gorffennaf trefnodd Capel Providence gwis ar gyfer capeli cylchdaith y Bedyddwyr, Llandeilo, ac estynnwyd gwahoddiad i aelodau Capeli Esgairnant ac Ebenezer i gymryd rhan. Paratowyd y cwestiynau gan John a Delyth Sydney gyda Delyth yn gyfrifol am holi'r cwestiynau.

Croesawyd y timau yn gynnes iawn i festri Providence a chafwyd lluniaeth hyfryd wedi'i baratoi gan aelodau'r gwahanol gapeli. Mwynhaodd pawb noson hapus a hwylus gydag ambell gyfnod o grafu pen wrth ateb y cwestiynau. Roedd y sgôr terfynol yn agos iawn a diolchodd y Parch. Mary Davies i John a Delyth Sydney am baratoi'r cwis mor drylwyr ac am y cwestiynau diddorol a heriol. Diolchodd hefyd i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

### Y Cyngor Cymuned

Estynnir ein llongyfarchiadau i Philip James, Penrheolwen a benodwyd yn Gyngorydd cymuned yn ddiweddar. Dymunwn yn dda iawn iddo yn y swydd.

### Y Siop a'r Swyddfa Bost

Am dros dair blynedd bu Kath Lovatt, Gwaunforfydd yn gyfrifol am y siop a'r swyddfa bost. Mae Kath wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r swydd erbyn hyn er mwyn canolbwyntio ar weithgareddau eraill. Carem ddiolch yn fawr i Kath am ei chyfraniad trwyadl a manwl at lwyddiant y siop a'r swyddfa bost ac am sicrhau bod y busnes yn ffynnu. Diolchwn yn fawr i Kath hefyd am ei chyfraniad i fywyd y pentref a dymunwn yn dda iddi.

Dymunwn yn dda hefyd i'r gwirfoddolwyr a fydd yn rhedeg y fenter o hyn ymlaen ac i'r rheolwr newydd a fydd yn goruchwyllo'r gwaith.

## CWRT Y CADNO



### Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Aled Jones, Tŷllwyd ar gael ei ddyrchafu yn bartner cysylltiedig yng Nghwmni Rees Richards a'i bartneriaid yn Abertawe. Gweithiodd Aled i'r cwmni ers iddo adael coleg yn 2007 ac ers hynny llwyddo yn yr arholiadau proffesiynol ar gyfer MRICS a FAAC. Ar hyn o bryd ef yw Cadeirydd Cymdeithas Tirbriswyr Ifanc De Cymru a Mynwy. Yn ddiweddar ef oedd yr ieuengaf o'r deg person a benodwyd gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig i fod yn aelod o Banel Apêl Annibynnol Cymru ar gyfer Ffermwyr a Choedwigwyr am y tair blynedd nesaf.

### Priodas

Dafydd, mab Ieuan a'r diweddar Beatrice Williams, Abermangoed, Cwrt-y-cadno ac Helen, merch Elizabeth a'r diweddar Gerald Davies, Caerdydd yn dilyn eu priodas yng Nghapel Cwrt-y-cadno yn gynharach eleni.

Llun : Tim Jones



## DERWEN FAWR



### Marwolaeth

Yn dilyn cyfnod hir o afiechyd bu farw **Mr Eric Jones**, Glynderi ar 30 Mehefin ac yntau'n 81 mlwydd oed. Priod hoff ydoedd i Betty, tad Stephen, Glennis, Peter ac Adrian, tadcu a hen datcu annwyl a ffrind da i Ann a Gillian a'u teuluoedd. Bu'r angladd yn Amlogsgfa Llanelli. Cydymdeimlir gyda'r teulu cyfan.

## DRYSLWYN



### Te mefus

Daeth tyrfa gref i de mefus blynyddol Capel M.C. Cross Inn ar bryn hawn Sadwrn 9 Gorffennaf. Dechreuwyd y gweithgaredd yn y Capel gydag Eluned Jones yn cyflwyno'r wraig wadd sef Doreen Evans, Felinwen. Soniodd y Llywydd sy'n enedigol o Flaencwm, Llanfynydd am ei chysylltiad gyda'r Capel gan olrhain yn ôl i'r cyfnod y bu'n forwyn ar Fferm Caeaunewydd gyda Robert a Nellie Falconer. Yng Nghapel Cross Inn y gwnaeth hi a'i diweddar wr briodi dros hanner can mlynedd yn ôl. Yn dilyn yr anerchiad aeth pawb i'r festri i fwynhau'r danteithion, i sgwrsio a phrynu o'r stondin fwyd. Prynhawn pleserus a hamddenol.

### Ymdeoliad ac arwerthiant

Yn dilyn degawdau o wasanaethu cymunedau cylch eang gyda chwmni loriau cludo D. M. Davies a'i feibion, Penycoed fe wnaeth rheolwyr y cwmni Wilmor ac Austin Davies ymdeol yn ddiweddar gan werthu'r peiriannau. Yna ar ddydd Sadwrn, 16 Gorffennaf gwerthwyd dros saith cant o'r eitemau offer a oedd yn weddill ar yr iard. Dymunir ymdeoliad hir a hapus i aelodau'r cwmni a diolch diffuant am eu gwasanaeth gwerthfawr. Daeth y lorri gyntaf i'r teulu yn 1928 pan ddechreuodd tadcu'r brodyr gludo cerrig o Stesion Dryslwyn – mae'n rhyfeddod fel mae trefn pethau wedi newid yn y ganrif ddiwethaf.

## Carnifal a Mabolgampau

Safle Ysgol Gynradd Cwrt Henri oedd lleoliad bwrlwm carnifal a mabolgampau blynyddol Pwyllgor Yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri ar 16 Gorffennaf. Llywyddwyd gan Susan Childs, Abersannan a'r gwesteion a wnaeth feirniadu'r cystadlaethau oedd Vivian ac Annette Griffiths, Pantyffynnon. Fe wnaeth y tywydd ffafrio'r digwyddiad eleni eto. Diwedddwyd y dydd gyda disgo yn y neuadd. Gweithgaredd codi arian nesaf y pwyllgor fydd ras hwyaid ar yr Afon Lash ger sgwâr Dryslwyn ar 17 Medi ac yna bydd y nosweithiau chwist yn ail gychwyn ar nos Sadwrn olaf misoedd y gaef, gyda'r cyntaf ar 24 Medi am 7.30pm.

### Marwolaeth

Yn dilyn cyfnod hir o afiechyd bu farw **Mrs Marged Thomas**, Caerfyrddin ar 11 Gorffennaf a hithau'n 76 mlwydd oed. Roedd yn enedigol o Fronhuan, Dryslwyn ar adeg pan roedd ei thad John Evans yn brifathro Ysgol Cwrt Henri. Fe ymgartrefodd ym Mrodirion, Ffynnonddrain ar ôl priodi Dewi Thomas o Beniel yn 1952. Ymdoddodd i fywyd cefn gwlad a byd ffermio a chyfranodd yn helaeth i achosion Cymreig megis Merched y Wawr ond yn bennaf i'r Achos yng Nghapel Elim, Ffynnonddrain.

Cynhaliwyd yr angladd yn Elim dan ofal y Parch J. Towyn Jones ar 16 Gorffennaf. Cydymdeimlir â'i phriod Dewi, Ion a Lusa Glyn y mab a'r ferch-yng-nghyfraith a'r wyrion Bedwyr a Garmon. *Gwyn eu byd y rhai addfwyn.*

### Penblwydd arbennig

Dymuniadau gorau am iechyd ac hapusrwydd i Eirona Lewis, Cwmagol a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar 15 Medi. Llongyfarchiadau gwresog i'r wraig weithgar a diwyd sydd wedi gweithio'n ddiflino dros nifer o fudiadau ac achosion da yn Nyffryn Tywi ar hyd ei hoës.

### Siopa'n lleol

Faint o siopa'n lleol ydych chi'n gwneud? Wel cyn hir cewch gyfle i brynu amrywiaeth anhygoel o ddeunydd mewn Noson Siopa yn Neuadd Pantglas, Llanfynydd ar nos Wener, 7 Hydref am 7.30pm. £3 yw'r tâl mynediad sy'n cynnwys caws a gwin.

Ymhlith y stondinau fydd amrywiaeth o ddillad, bwyd, llyfrau, pethau pren, gemwaith a llawer mwy. Trefnir y noson gan Gyfeillion Cylch Meithrin Ti a Fi Cwrt Henri. Estynnir croeso i chi ymuno am noson hamddenol a chyfeillgar ac edrych o gwmpas amrywiaeth o stondinau gan gynhyrchwyr lleol.

## FELIN-GWM



### Cylch Meithrin

Eleri James wnaeth agor Ffair Mefus a Ras Hwyaidd lwyddiannus Cylch Meithrin Nantgaredig, Brechfa a'r fro a gynhaliwyd yn Felingwm Uchaf. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



Eleri James, Prifathrawes Ysgol Brechfa, Anwen Jones Cynorthwy-ydd y Cylch ac Elin Bishop Cadeirydd y Pwyllgor.

## Mabolgampau

Ar noson heulog braf, 2 Gorffennaf cynhaliwyd mabolgampau Felingwm ar gae Brynsiriol drwy garedigrwydd Mr a Mrs M. Price. Dan gyfarwyddyd Cadeirydd Pwyllgor Canolfan Felingwm John James, Fferm Tŷ-llwyd cafwyd dwy awr ddi-dor o gystadlu brwd. Roedd mwy nag arfer o blant oed cynradd wedi cystadlu yn yr amrywiol gystadlaethau ac wrth reswm roedd ganddynt i gyd aelodau o'u teuluoedd yno'n cefnogi. Roedd llywydd y noson Peter Dyer, Maesygroes, Brechfa (Bryndawe gynt) yn ymfalchio yn yr ymateb gwyhch gan y cylch eang o bobl a ddaeth i gefnogi. Braf oedd gweld y gymuned gyfan yn cyd-dynnu gan ddarparu noson o gymdeithasu, adloniant a chystadlu i ieuencid yr ardal.

### Marwolaeth

Yn ddisyfyd bu farw **Mr Jay Davies**, Brynbugail, Horeb ar 19 Gorffennaf ac yntau'n 77 mlwydd oedd. Roedd yr amaethwr yn frawd addfwyn ac annwyl i Glanville, Sid, Idwal ac Alan. Bu'r angladd breifat yn Amlosgfa Arberth. Cydymdeimlir â'r teulu.

### Dathliad

Llongyfarchiadau gwresog i'r foneddiges gymwynasgar Beti Daniels, Gorwydd ar ddathlu penblwydd arbennig ar 23 Awst. Dymunir iddi lawer blwyddyn eto i barhau mwynhad o win a blodau bywyd.

## FFAIR-FACH



### Cyngor Bro Dyffryn Cennen

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Bro Dyffryn Cennen yn Neuadd Llandyfan. Cafodd cwynion at sylw y Cyngorydd Sir eu codi a'u nodi, yn ogystal â materion newydd. Cafodd ceisiadau cynllunio eu cyflwyno o flaen y Cynghorwyr, gan gynnwys newidiadau i adeilad allanol ar gyfer defnydd gwyliau, yn Tynewydd, Temple Bar; newidiadau i adeilad storfa amaethyddol presennol i bloc o stablau ceffylau, yn Troed y Rhiw, Ffair-fach; ac estyniad a newidiadau i adeilad presennol yn ysgol Ffair-fach, er mwyn creu lle dosbarth ychwanegol. Yn yr adran gohebiaeth derbyniwyd cytundeb i fabwysiadu blwch ffôn pentref Trap.

Penderfynwyd gwahodd Menter Bro Dinefwr i'r cyfarfod nesaf i siarad yngylch Grantiau Treftadaeth Diwylliannol.

### Eisteddfod Ffair-fach

I bawb a fu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni, rwy'n siwr i chi gytuno i ni gael Gŵyl arbennig, tywydd da a dim mwd.

Yn fynych yn ystod yr wythnos bu sôn am bwysigrwydd yr Eisteddfodau bach. Aethom i gyfarfod blynyddol yr Eisteddfodau Bach ar y bore Mercher, ac yno mynegwyd pryder gan amryw ardal. Pryderon oeddynt am wahanol resymau e.e. ariannol yn bennaf, ond nid dyna ein problem ni yn Ffair-fach.

Mewn rhifyn diweddar o'r cychgrawn 'Golwg' cafwyd cyfeiriad at hyn, er i ni ddweud mai methu cael swyddogion oedd wedi gorfod i ni roi y gorau ar ôl 22 mlynedd. Bu'r Cymro eto yn holi beth oedd y sefyllfa ac eto roedd rhaid esbonio'r rheswm. Gyda gobaith rydym yn codi'r mater yma unwaith eto, gan ddweud hefyd i ni gael llawer o holi am raglenni oddi wrth cystadleuwyr ffyddlon a newydd. Oes yna rhywun am ail-feddwl ac am weld parhad yr Eisteddfod?

Os oes, plis cysylltwch â ni ar 01792 881891.





## FFARMERS



[www.ffarmers.org](http://www.ffarmers.org)

### Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Philip ac Abi, Tynreithyn, ar enedigaeth mab bach, Ifan Tomos – ŵyr i Roy a Judy, Llysawel. Hefyd i Mark a Pamela Davies, Delfryn ar enedigaeth Harri – ŵyr bach arall i Ceredig a Marian, Tanresger; ac yn olaf i Rhodri a Carys yng Nghaerdydd ar enedigaeth mab bach, Dafydd Caio Gomer – ŵyr i Elfyn a Rowena, Troed y bryn.

### Ymddiriedolaeth Anthony Nolan

Bu Heddwyn Jones, Derlwyn yn ddigon mentrus i ymweld â Chanolfan Gweithgaredd Llain yn Llanarth yn ddiweddar i godi arian tuag at Ymddiriedolaeth Anthony Nolan, elusen sy'n hybu trawsblannu mêr asgwrn. Yr her oedd croesi rhwng dau dŵr uchel ar lithryn gwifren zip, gorchwyl a gwblhaodd yn llwyddiannus gan godi £550 tuag at yr Ymddiriedolaeth. Dymuna Heddwyn ddiolch i bawb a'i gefnogodd a Chanolfan Gweithgaredd Llain am gael defnyddio'r offer.



### Neuadd Bro Fana

Mae Cyngor y Neuadd wedi bod yn paratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer y gaeaf gan gychwyn gyda Noson Caws a Gwin ar 17 Medi. Cynhelir noson 'Rasus Parlwr' yn Y Drovers ar 11 Tachwedd, a byddwn yn croesawu Gary a Siân Jones, Cwm-ann yn Llywyddion y noson. Ar 14 Tachwedd, bydd Alan Leech o Lanfair Clydogau yn rhoi hanes Dan Jenkins, cymeriad dylanwadol a fu'n Brifathro yn Ysgol Llanycrwys o 1898 – 1920. Bydd rhagor o weithgareddau yn cael eu trefnu yn ystod y misoedd nesaf.

Ar 1 Hydref, cynhelir Cyngerdd yn y Neuadd, wedi ei drefnu gan Gôr Cwm-ann a'r Cylch gydag Aled Edwards ac Eleri Owen Edwards, Cil-y-cwm; Kees Huysmans o Dregroes, a Pharti Bois Dyffryn Cothi yn cymryd rhan. Mae elw'r noson yn cael ei gyflwyno i Ymchwil Cancr ac Ambiwylans Awyr Cymru. Bydd tocynnau ar gael oddi wrth aelodau'r Côr, a *Dai's Diner* yn Llanbedr Pont Steffan.

### Parc chwarae i'r plant

Er gwaethaf gwrthywnbiad chwyrn oddi wrth rhai unigolion – y rhan fwyaf ohonynt ddim yn byw yn lleol, ac yn sicr yn cyfrannu dim i fywyd cymdeithasol yr ardal - gwirededwyd y freuddwyd o gael safle diogel i'r plant i chwarae ar Barc Bro Fana, a chafwyd agoriad swyddogol y safle ar ddydd Sadwrn, 2 Gorffennaf. Roedd tyrfa fawr wedi ymgynnull ar ddiwrnod braf, heulog, ac agorwyd y safle yn swyddogol gan Elfyn a Rowena Davies, Troed y bryn. Talodd Elfyn deyrnged i aelodau Cyngor y Neuadd, a'r gymdogaeth yn gyffredinol am eu cefnogaeth, eu dygnwch a'u gwaith caled, a braf oedd clywed sŵn y plant ar gae'r pentref unwaith eto. Cafodd yr offer ddigon o ddefnydd ar y dydd, ac mae brwdfrydedd y plant yn parhau. Roedd 'picnic yn y parc' wedi ei drefnu ar gyfer pawb yn dilyn yr agoriad swyddogol, ac yna cafwyd mabolgampau i gloi gweithgareddau'r prynhawn, cyn ymgynnull eto yn yr hwyr am farbeciw, a chyfle i ymlacio a chymdeithasu. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y dydd.

## Carnifal a Mabolgampau

Cynhaliwyd y Carnifal a Mabolgampau blynyddol ar 13 Awst, a hyfryd oedd croesawu Elgan a Mary Jones, Tremafon yn Llywyddion y dydd. Mae gan Elgan gysylltiad agos â Ffarmers, wedi ei fagu yn Nolaugwynion, ac fel ei dad gynt, yn aelod ffyddlon o Gyngor y Neuadd. Mae gan Mary hefyd gysylltiadau teuluol ag ardal Ffarmers yn mynd yn ôl sawl cenhedlaeth, ac mae'n gwasanaethu yr ardal fel Clerc Cyngor Cymuned Cynwyl Gaeo. Gan ein bod eleni yn nodi pedwar ugain mlynedd ers agor y Neuadd, gwahoddwyd tri o blant yr ardal sydd hefyd yn dathlu eu pedwar ugain, i ymuno â ni fel gwesteion arbennig – Gwyneth Davies, Maesisaf; Annie Jenkins, Min y Dderwen ac Eirwen Thomas, Tynrheol. Penblwydd hapus i'r tair ohonynt wrth dathlu carreg filltir arbennig.

Eleni, am y tro cyntaf ers blynyddoedd, cafwyd Brenhines y Rhosynnau a'i gosgordd i gychwyn gweithgareddau'r dydd. Y frenhines oedd Lisa Jones, Sŵn y nant, gyda Niah Bouvet, Y Drovers a Sara Jones, Sŵn y nant yn forynion; Rhys Jones, Sŵn y nant oedd y Tywysog a Rhodri Morgan, Bryntwrch oedd y macwy. Diolch i'r plant am gyflawni eu dyletswyddau mor hwylus. Cafwyd cystadleuaeth dda yn y Carnifal, ac yn amlwg, roedd tipyn o waith wedi mynd i mewn i'r paratoi. Felly hefyd y mabolgampau, gyda chystadlu brwd a thipyn o hwyl. Enillwyd y Cwpan er cof am Elin Mair am y ferch orau dan 6 oed yn y mabolgampau gan Niah Bouvet, Y Drovers, a chwpan her Clwb y Groesffordd am y cystadleuwr gyda mwyaf o bwyntiau dan 16 oed yn mynd i Bryn Morgan, Sŵn y nant. I gloi'r gweithgareddau, cafwyd twrnament pêl droed. Ar y nos Sul, cynhaliwyd Helfa Drysor wedi ei threfnu gan Kevin a Nicola Morgan a'r enillwyr oedd Gwyneth Richards a Doreen George. Diolch i'r rhai hynny a fu wrthi yn paratoi ar gyfer yr amrywiol weithgareddau, ac i bawb am eu cefnogaeth barod.

## LLANARTHNE



### Priodasau

Ar 22 Gorffennaf priodwyd Rhiannon Jones, Penpal, Llanarthne a Darryl Evans, Llanelli yn Eglwys Llanarthne. Bu'r wledd briodasol yng Ngwesty



Parc y Strade, Llanelli. Mae Rhiannon yn newyddiadurwraig gyda'r Carmarthen Journal a Darryl yn gweithio yn Llantrisant fel peiriannydd. Aethant ar eu mis mêl i Mauritius.

Yna ar 30 Gorffennaf yn Eglwys Llandybie priodwyd John Bound, Tri Cornel, Llanarthne a Carrie Davies, Llandybie. Bu'r



neithior yng Ngwesty'r Aradr, Rhosmaen a threuliodd y ddau eu mis mêl yn Mecsico. Mae Carrie yn athrawes yn Ysgol Gynradd Saesneg Porth Tywyn a John yn Is-Bostfeistr yn Llanddarog. Maent bellach wedi ymgartrefu ym Mlaenau ger Llandybie.





## Graddedigion

Llongyfarchiadau gwresog i Arwel Davies, Tŷ Saron ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Mathemateg o Brifysgol Abertawe, hefyd Claire Williams, gynt o Llwynhaf ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf o Brifysgol Loughborough mewn Seicoleg. Mae Nerys Jones, Ael y Bryn hefyd wedi derbyn gradd 2:1 mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ag Angharad Atkinson, Y Felin hefyd 2:1 mewn Fferylliaeth o Brifysgol Lerpwl. Llongyfarchiadau i'r pedwar a phob lwc iddynt yn eu gyrfaedd. Mae'r pedwar yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Gynradd Llanarthne ac Ysgol Gyfun Bro Myrddin.

## C.Ff.I.

Bydd Clwb Ffermwyr Ifanc Llanarthne yn dechrau eu tymor newydd ar 2 Medi gyda noson aelodau newydd yn y neuadd am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Mae croeso i aelodau newydd ar unrhyw adeg. Rhif cyswllt: Nerys Jones 07854 111849.

## Adran yr Urdd

Mae Rhiannon Dafis, arweinydd cyntaf Adran Llanarthne wedi penderfynu gorffen fel arweinyddes ar ddiwedd yr haf. Hoffai'r adran ddiolch iddi am yr holl waith caled a diflino a'r cydweithio dwys dros y blynyddoedd a phob hapusrwydd iddi yn y dyfodol. Bydd yr Adran yn cychwyn nŵl ar 13 Medi gyda Noson o Hwyl a Sbri - cyfle i blant a rhieni i ddod i gwrdd â'r staff, ac i'r plant i gwrdd â'r aelodau presennol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Nerys Jones 07854 111849.

## Noson elusennol Ymchwil y Galon

Bydd noson yn Neuadd Llanarthne i godi arian i Ymchwil y Galon ar nos Sadwrn 10 Medi. Côr Merched Curiad y Cwm, Emyr Jones a Ffion a Meinir fydd yn diddanu gyda gwydriad o win, neu ddiod a canapes hanner ffordd drwy'r gyngerdd. Noson hamddenol a chroeso cynnes i bawb. Tocynnau yn £7.50 wrth y drws neu neu ymlaen llaw oddi wrth Janet Williams (01558) 668745.

## Noson Geltaidd

Ar nos Sadwrn, 8 Hydref bydd y band o Ddilyn *Shandy Folk* nŵl yn y pentref a cheir noson o ddiddanwch yn eu cwmni gyda Chôr Y Sgarlets yn rhannu'r llwyfan. Tocynnau yn £10 oddi wrth Ann Davies (01558) 668305 neu Gethin James (01558) 668143. Tocyn yn cynnwys pryd dau gwrs. Croeso cynnes iawn i bawb.

## LLANDYFAN



## Capel Soar

Yn ystod mis Awst, cafwyd oedfa yng ngofal y brawd Dennis Oxenham, Pentregwenlais - oedfa go arbennig gan fod ugain mlynedd ers iddo ddechrau pregethu, a hynny yn Soar. Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i wasanaeth dros y ddau ddegawd, cafwyd te dathlu wedi'r oedfa pan gyflwynwyd iddo docyn llyfrau ar ran yr aelodau gan Ron Griffiths. Gobeithio y ceir ei wasanaeth a'i gyfeillgarwch am flynyddoedd lawer i ddod.

Llongyfarchiadau i blant Soar ar eu llwyddiant ym mabolgampau Ysgolion Sul y Sir. Cawsant gryn dipyn o hwyl a mwynhad wrth gymryd rhan a chyfle i gymysgu â phlant capeli eraill.

## LLANDEILO



## Marwolaeth cymeriad

Ar Ddydd Sadwrn 9 Gorffennaf bu farw **Mr Glyndwr Jones**, Walk Villa, Heol Caerfyrddin ar ôl salwch byr ac yntau'n 94 oed. Yn enedigol o Frechfa, wedi gadael yr ysgol aeth i weithio ar wahanol ffermydd yn ardaloedd Caerfyrddin a Llandeilo cyn mynd yn weithiwr ar Ystâd Dinefwr, lle y bu am nifer o flynyddoedd. Bu'n fawr ei barch gan y meistri a'i gydweithwyr, ac roedd ganddo yntau barch mawr tuag at deulu Dinefwr ac fe barhaodd y cysylltiad rhyngddynt â'i gilydd hyd y diwedd.

Pan yn ieuanc roedd Glyndwr yn aelod brwd o Gôr David Hughes yn y dref gan feddu ar lais canu da, ond yn bennaf cofir amdano fel garddwr arbennig a dyfai amrywiaeth o lysiau ac ni cholodd ei ddiddordeb yn yr ardd hyd y diwedd. Bu'r angladd ar 22 Gorffennaf gyda gwasanaeth yn Eglwys Llandeilo Fawr cyn mynd i'r Amlosgfa yn Arberth. Cydymdeimlir yn gywir iawn â'r meibion a'r merched a'u teuluoedd a'r holl gysylltiadau yn eu hiraeth a'u colled.

## Merched y Wawr, Llandeilo

Bydd tymor newydd Merched y Wawr, Llandeilo yn dechrau ar 15 Medi pan fydd y telynor gwerin Dr Carwyn Gwyn yn ein diddanu a'n haddysgu am y Delyn.

Croeso i aelodau hen a newydd i ymuno â ni yn Ffestri Capel Tabernacl, Ffair-fach am 7.15pm pan fydd cyfle hefyd i gael sgwrs dros banded. Cysylltwch ag Undeg Griffiths am fanylion pellach (01558) 824490.

## Capel Newydd

Aeth 40 o aelodau'r Capel ar daith bws i'r Hen Gapel, Llanedi (*gweler y llun isod*) ar 17 Gorffennaf a chynhaliwyd Oedfa Gymun gartrefol yno dan ofal y Parch Edward Griffiths. Yn y fynwent yno y claddwyd yr emynydd, Gwili, a chafwyd tipyn o hanes ei fywyd hynod ddiddorol a chanwyd rhai o'i emynau cyfarwydd yn y gwasanaeth. Yn dilyn yr Oedfa cafwyd cinio blasus yn yr *Old Bridge Inn*, Llangennech.

Y Sul wedyn, 24 Gorffennaf, aeth rhyw 60 o'r plant a'u rhieni ar drip yr Ysgol Sul i Saundersfoot (*gweler y llun gwaelod*). Yn ffodus, bu'r tywydd yn braf a chafodd y plant a'r rhieni ddiwrnod cyfan ar y traeth yn chwarae, cymdeithasu a mwynhau gyda'i gilydd.

Yn dilyn saib dros yr haf, bydd yr Oedfaon wythnosol a'r Ysgol Sul yn dechrau nŵl am 10.30am ar 4 Medi. Bwriadwn dderbyn aelodau newydd yn ystod yr hydref hefyd, ac os oes gennych ddiddordeb mewn ymaelodi gallwch gysylltu ag un o'r swyddogion.

Cofiwch hefyd am y Gymanfa Ganu Gydenwadol a gynhelir yn y Capel Newydd ar nos Sul, 25 Medi am 7.30pm dan arweiniad Alun Guy. Croeso cynnes i bawb.







## LLANEGWAD



### Cyngor Cymuned Llanegwad

Mewn cyfarfod diweddar cytunwyd i gyfrannu £100 yr un i chwech achos teilwng o fewn y gymuned – Cynllun arwydd Parc Victoria Brechfa; papur bro Y Lloffwr; C.Ff.I. Sir Gâr; Llyfrgell newydd Ysgol Gynradd Nantgaredig; Cymdeithas Aredig Sir Gaerfyrddin a Chylch Meithrin Brechfa, Nantgaredig a'r fro.

Penodwyd Elfryn Daniels, Gorwydd yn Gynghorydd dros Ward Elfed i olynu Ieuan Davies, Mynachdy a wnaeth ymddiswyddo ganol haf – dymunir yn dda i'r ddau gyda diolch am eu parodrwydd i wasanaethu'r gymuned.

## LLANFRIDWEN



### Bardd cadeiriol

Llongyfarchiadau i Gajendra Tajdar, a enillodd y gadair hardd mewn eisteddfod gadeiriol a gynhaliwyd mewn pabell ar gyrion Llanfridwen ar 12/13 Awst. Trefnwyd yr ŵyl gan ddilynwyd y Mahoradi Golida sydd wedi ymgartrefu yn Nheml y Lembo Goruchaf yn Llanfridwen ers sawl blwyddyn bellach. Ar gyfer y cadeirio, yn hytrach na chanu corn gwlad, cafwyd eliffant y deml i utganu; yn anffodus, fodd bynnag, cafodd sawl aelod o'r gynulleidfa wlychfa yn ystod y seremoni.



### Allan o'r bin

Mae'n dda gallu cyhoeddi bod ein ficer, y Parchedig Melbourne Thomas, yn holliach ar ôl damwain anffodus ganol yr haf. Wrth chwilio am bregeth, cwmpodd i mewn i *wheelie bin* a bu'n gaeth yng nghanol yr ysbwriel am rai oriau hyd nes i Mr B. Ulmer Richards, Braeburn House, ei glywed yn galw a llwyddo i'w dynnu allan.

### Croeso adref

Dyna a welwyd ar amryw faner yn y pentref yn ystod mis Gorffennaf pan fu'r Dr E.W. Dodd a'i wraig Persa ar ymweliad â hen gartref y teulu yn Stryd y Glop. Mae Dr Dodd yn arbenigwr ar eneteg, ac yn ddiweddar bu'n datblygu ffrwythau sgwâr sy'n caledu yn hytrach na phydru. Dangoswyd diddordeb mawr yn ei waith gan y diwydiant adeiladu.

## LLANSAWEL



### Mr Griffith James Rogers

Yn dilyn gwaeldd iechyd a llesgedd bu farw **Mr Griff Rogers** ar 6 Gorffennaf ac yntau'n 91 mlwydd oed.

Cafodd Griff ei eni a'i fagu yng Ngwinionlethru, Talylychau yn un o chwech o blant gyda phob un ohonynt wedi ei ragflaenu. Ergyd drom i'w fam ac iddo yntau a'i frodyr a'i chwiorydd oedd marwolaeth ei dad yn ifanc. Un ar ddeg oed oedd Griff ar y pryd a'i frodyr iau yn naw a saith oed. Cerddai i'r ysgol yn ôl a blaen gyda'i frodyr a'i chwiorydd i Lansawel. Wedi ymadael â'r ysgol aeth i wasanaethu ar fferm ei dad-cu a'i fam-gu yng Nghilwenau. Yno y bu am ddeuddeg mlynedd yn dysgu amaethu - yn dilyn ceffylau, yn aredig, yn trin y tir, yn hau llafur, yn cynaeafu'r gwair, yn bugeilio'r defaid ac yn gofalu am y gwartheg. Roedd ei chwaer May yn forwyn yno tua'r un adeg ag ef. Daeth May arall i

fynd â'i fryd ac wedi iddynt briodi symudodd y ddau o fewn milltir i Gilwenau i ymgartrefu ym Manc-y-glyn.

Rhannodd Griff a May chwe deg a phump o flynyddoedd o fywyd priodasol dedwydd a hapus yn ffermio Banc-y-glyn lle y ganwyd tair o ferched. Roedd Griff yn Dat y Banc i sawl cenhedlaeth a chanddo wyth o wyrion a deuddeg o orwyrion.

Roedd Griff yn un o gymeriadau'r fro, yn werinwr ac yn ŵr bonheddig. Roedd yn feddiannol ar gwrteisi Teyrnas Duw. Cofir amdano fel storiwr heb ei ail a'i fod yn llawn hiwmor. Roedd ei wybodaeth am deuluoedd ei filltir sgwâr a'r bröydd cyfagos yn anhygoel. Roedd ei gof yn berffaith hyd y diwedd ac roedd yn gyforiog o hanesion yr ardal. Gŵr ydoedd a gawsai ei barchu a phobl yn meddwl y byd ohono.

Bu'n mynychu capel Bethel, Llansawel ers yn blentyn. Gosodai aelwyd Teulu'r Ffydd ym Methel ar yr un gwastad â'i aelwyd gartref. Etholwyd ef yn flaenor pedwar deg a phedwar o flynyddoedd yn ôl ac fe wasanaethodd yr eglwys fel trysorydd am ugain mlynedd. Eisteddai yn y sedd fawr yn dal ar bob gair a ddeuai o enau'r pregethwr a byddai wrth ei fodd yn canu'r emynau.

Bu ei deulu yn ofalus iawn ohono yn ei waeldd. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol ar 12 Gorffennaf ym Methel o dan arweiniad y Parchedig Andrew Lenny. Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â May, ei briod, ynghyd â'r merched - Mair, Megan, Lydia a'u teuluoedd.

**A.L**

### Cofio Alun Davies

Ar ôl cystudd hir bu farw **Mr Alun Davies**, Ynys ar 25 Mehefin yn 73 mlwydd oed. Yn enedigol o Gaeglas, Porthyrhyd, Llanwrda, treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd ar fferm Ynys yn mwynhau amaethu gyda'i frawd Islwyn a'i chwaer yng nghyfraith Hefina. Yr oedd yn gallu troi ei law at bob peth, a phan oedd angen cymorth ar unrhyw un, yr oedd yn barod ei gymwynas. Hoffai ddreifio unrhyw beiriant amaethyddol.

Yn gymeriad tawel, ffein, ac er yn ddi-briod roedd yn agos iawn i'w deulu, a fu yn ofalus iawn ohono yn ystod ei waeldd.

Dan ofal ei weinidog y Parch. Huw Roberts bu'r gwasanaeth angladdol cyhoeddus ar 30 Mehefin yng Nghapel Shiloh lle'r oedd yn aelod, a'r organyddes oedd Gwenda Jenkins.

Cydymdeimlir â'i unig frawd Islwyn a'i chwiorydd Betty, Megan a Brenda a'u teuluoedd i gyd yn eu colled.

*"Mae'r ymdrech drosodd"*

### Marwolaeth

Ar 22 Gorffennaf yn 84 mlwydd oed bu farw **Mr Thomas John Humphreys**, neu fel ei adnabwyd o fewn cylch amaethyddol eang, Tomi Cwmglaw. Dechreuodd ei fywyd ar aelwyd Clawdd-Owen, Llanfynydd, ond yn bymtheg oed symudodd y teulu i Gwmglaw, Talylychau. Yno bu'n amaethu crefft gyntaf dynol-ryw trwy gydol ei oes, yn stocman arbennig a galw mynych arno i feirniadu mewn sioeau.

Bu'n ddewr yn ystod dirywiad ei iechyd a bu farw yn dawel yn ysbyty Treforys. Ar 28 Gorffennaf cynhaliwyd angladd breifat yng Nghapel Shiloh lle yr oedd yn ddiakon. Roedd y gwasanaeth o dan ofal ei weinidog y Parch. Huw Roberts, a'r organyddes oedd Brenda Morgan.

Estynnir cydymdeimlad â'i briod Daphne, Jane a John a Sara a'i wyres hoff Ruth, yn eu colled a'u hiraeth.

### Cymdeithas yr Henoed Llansawel

Yn ystod y misoedd diwethaf collodd y gymdeithas dri aelod, sef Griff Rogers, Banc-y-glyn, Anita Morris, Noddfa, Crugybar a Gwen Williams, Plasnewydd. Estynnir cydymdeimlad â'u teuluoedd yn eu colled.

### Dathliad

Llongyfarchiadau gwresog i Gerwyn a Beti Davies, Fferm Blaenresgair, Llansawel ar ddathlu eu priodas aur ar 18 Awst. Dymuniadau gorau ac iechyd da a hapusrwydd yn y dyfodol.



## LLANYMDDYFRI



### Gwasanaeth Dinesig

Braf oedd gweld pobl o faes llywodraeth leol yn ymuno gyda thrigolion yr ardal ar gyfer Gwasanaeth Dinesig Cyngor Sir Caerfyrddin. Ar 17 Gorffennaf cynhaliwyd yr oedfa yn Eglwys Llandingat, Llanymddyfri eleni gan taw yno mae Cadeirydd presennol y Cyngor Ivor Jackson a'i briod Mary Jackson yn addoli. Roedd yr oedfa dan ofal y Parch. Ian Aveson gyda chymorth y Gwir Barchedig John Rogers gyda Gwyneth Perry wrth yr organ. Darllenwyd y llithiau gan Meryl Gravell a Huw Clarke a derbyniwyd datganiadau cerddorol hyfryd gan Gôr Meibion Llanymddyfri a'r unawdydd Luke James sy'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Pantycelyn. Yn dilyn y gwasanaeth darparwyd lluniaeth i'r gwesteion yng Nghlwb Rygbi Llanymddyfri.

### Clwb Gwawr Llanymddyfri

Roedd hi'n noson braf a'r haul wedi penderfynu taflu ei belydrau prin wrth i ni ymgasglu yn Neuadd Gymunedol Myddfai. Dechrau ar ein taith gerdded tuag at Lanymddyfri, cyn troi a chamu dros y sticil gan ddilyn y llwybr cyhoeddus tuag at Llwynwermud. Cerdded heibio'r tŷ (doedd neb gartref!) cyn croesi dros y caeau trwy fferm y Trallwng ac yn ôl i'r neuadd, taith o ryw ddwy filltir. Pryd o fwyd yn y neuadd a thynnu'r raffl. Codwyd £200 i bapur bro y Lloffwr. Diolch i Nan Morse am drefnu'r noson ac i bawb a ddaeth i gefnogi. Mae'r neuadd ym Myddfai, sydd o dan ei newydd wedd, yn werth ei gweld. Ewch yno am baned a chyfle i grwydro'r siop sy'n llawn nwyddau deniadol.



*Rhai o aelodau'r Clwb Gwawr o flaen Llwynwermud.*

### Ysgol Gynradd Rhys Prichard

Ar ddiwedd mis Mehefin aeth dosbarth Mrs Rees o Ysgol Rhys Prichard lawr i orsaf Rheilffordd, Llanymddyfri i ddawnsio i Dywysog Cymru a Duges Cernyw, ar achlysur ail agor yr orsaf ar ei newydd wedd. Diolch i Glyn Evans am y gwahoddiad bythgofiadwy. Bu merch o Batagonia sef Agustina Tora yn hyfforddi'r plant, tra roedd yn astudio yng Ngholeg Llanymddyfri. Roedd y gwesteion a'r gynulleidfa oll wedi mwynhau gweld chwech ar ugain o blant ifanc yn dawnsio dwy ddawns sef Clawdd Offa a'r Ddafad Gorniog.

Ar y dydd Sadwrn canlynol bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth "Clochlewyr Ifanc y Dref." Roeddent i gyd wedi gwneud ymdrech i wisgo yn urddasol ac yn gweiddi yn synhwyrol. Cafodd Jo Beard, sef Clochlewr y Dref syndod i glywed sut leisau cryf oedd gan blant mor ifanc. Yn Adran y Babanod daeth Cerys Cousins yn gyntaf,

Ryan Beard yn ail a Shôn Jones a Honey Rogers yn gydradd drydydd. Yn yr Adran Iau y buddugol oedd Catrin Manning, Elin Jones yn ail ac Eira Ghiani yn drydydd. Da gweld fod yr ysgol a'r gymuned yn cyd-weithio mor dda.

### Merched y Wawr Bro Pantycelyn

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar nos Iau, 8 Medi yn Neuadd Dolau Bran am 7.30pm. Y wraig wadd fydd Elizabeth Walters o Langadog ac edrychir ymlaen i'w chlywed yn siarad am ei gyrfa yn y fyddin. Croeso cynnes iawn i bawb, yn enwedig i aelodau newydd. Am ragor o fanylion cysylltwch â Bethan Richards ar (01550) 721635 neu Evelyn Davies ar (01550) 720368.

## MYDDFAI



### Y Neuadd

Ar eu hymweliad blynyddol â Chymru, croesawodd y Tywysog a Duges Cernyw, nifer o drigolion yr ardal i'w cartref Llwynwermud a chafwyd noswaith ddymunol yn eu cwmni.

Ar y bore dydd Iau, agorwyd y neuadd yn swyddogol gan y Tywysog a'r Dduges. Cafwyd adloniant gan blant y plwyf a Chôr Meibion Llanymddyfri.

Yn ystod eu hymweliad â'r siop, prynodd y Dduges nifer o eitemau a oedd wedi eu gwneud yn lleol.

Ar 2 Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu hanes a thraddodiad Meddygon Myddfai. Croesawyd nifer fawr o blant yr ardal nôl i'w cynefin, rhai heb ymweld â Myddfai ers dros hanner can mlynedd.

Dathlodd Valerie Wood-Gaiger, MBE, ei phenblwydd yn 70 oed trwy gynnal parti yn y neuadd.

Gan fod y Parchedig Dr. Eifion Evans a'i briod Meira yn 80 oed, trefnodd Capel Bethania, yn ddarwybod i'r ddau, barti yn y neuadd, ar brynhawn Sul 3 Gorffennaf. Llywyddwyd gan ficer y Plwyf Parch Ian Aveson. Hefyd yn bresennol roedd eu cyfeillion o gapel Tŷnewydd, Cil-y-cwm a chafwyd gair ar eu rhan gan Llew Jones. Diolchodd Reuben Stone iddynt am eu gwasanaeth ym Methania a hefyd yn yr Astudiaeth Feiblaidd yn Llwynmeredydd. Comisiynwyd Julie Brenon (artist proffesiynol) i beintio llun o'r capel mewn olew. Dadorchuddiwyd a chyflwynwyd y llun i Mr a Mrs Evans gan aelod hynaf Bethania, Nest Davies, hithau yn dathlu ei phenblwydd yn 96 oed yr un wythnos. Cyflwynwyd basged o flodau i Meira Evans gan Richard Thomas. Yn dilyn y cinio cynhaliwyd gwasanaeth yn y neuadd a chafwyd pregeth gan y Parch. Geoff Fukes, Pen y Bont ar Ogwr.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwyneth Davies, Tymelyn ac Eirlys Land, Maes y Berllan a'u teulu oll ar farwolaeth eu brawd, **Mr Gwynfor Dyer**.

Ein cydymdeimlad hefyd â Judith McSwiney, Cefngolau, ar farwolaeth ei phriod **Brian McSwiney**. Cynhaliwyd yr angladd ar 6 Gorffennaf yn Eglwys San Mihangel, Myddfai.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau i John Evans, Hafod Fawr sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

### Râs Myddfai

Trefnodd Monica a Robin Barlow râs flynyddol Myddfai ar 5 Awst. Daeth nifer fawr o redwyr a chefnogwyr a chafwyd noson ddymunol.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Graham Davies, Cwm Meddygon ar ennill gradd MA gyda rhagoriaeth mewn Hanes Lleol o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin.





## NANTGAREDIG



### Ffair Haf

Ar brynhawn a noson braf iawn, 1 Gorffennaf cynhaliwyd Ffair Haf gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Nantgaredig ar safle'r ysgol. Llywyddwyd gan y prifathro Steffan Griffiths ac agorwyd y digwyddiad yn swyddogol gan y cyn-brifathro Gethin Thomas. Roedd bwrlwm a brwdfrydedd y trefnwyr a'r plant yn heintus, pawb wrth eu boddau gyda digon i'w wneud a'i weld.

### Marwolaeth

Yn dawel ar 3 Gorffennaf bu farw **Mrs Irene James**, Tirdidog, Nantgaredig, priod y diweddar Bromley, modryb Valerie a hen-fodryb Mark a Linda. Bu'r angladd i'r teulu a ffrindiau yng Nghapel M.C. Nantgaredig ar 13 Gorffennaf.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Wynne Harries a'r teulu, Eirianfa ar gollu ei dad a'i fodryb yn dra sydyn yn ddiweddar.

### Mabolgampau

Dan drefniant aelodau Llanfihangel-Uwch-Gwili cynhaliwyd noson o fabolgampau ger yr Eglwys ar nos Wener, 15 Gorffennaf. Er nad oedd y tywydd yn or-ffafrinol roedd brwdfrydedd yr ifanc yn amlwg iawn a chawsant i gyd lawer o fwynhad yn enwedig gyda'r gemau dŵr. Llywyddwyd yn ei ddull dihafal gan Ivor Davies a gwestai'r noson oedd Rhodri Thomas, Tŷcerrig, Felinwen.

### Carnifal a Mabolgampau

Cae'r Ystrad oedd lleoliad bwrlwm carnifal a mabolgampau blynyddol Clwb Rygbi Nantgaredig ar 16 Gorffennaf gyda Dr Heather Evans yn llywydd y digwyddiad. Ar wahan i'r cystadlaethau a'r mabolgampau arferol i'r thema Dathliad roedd yna goginio gyda Hazel Thomas, Band Cymunedol; rhost eidion a mochyn, a rygbi saith bob ochr. Fe wnaeth y tywydd ffafrio'r digwyddiad eleni eto.

### Penblwydd

Llongyfarchiadau i'r foneddiges hynaws Gwyneth Evans, Tŷnewydd ar ddathlu ohoni ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed ar 17 Gorffennaf.

## PENYBANC



### Y Bechgyn ar y Brig

Fe gafodd Richard Davies, Penybanc, Llandeilo gryn lwyddiant yn y Sioe Frenhinol yn Llanfair y Muallt eleni drwy gipio'r ail wobwr, dau drydydd a dau bedwerydd yn y cystadlaethau i brentisiaid yn yr Adran Ffariaeth a Gofaint.

Mae Richard yn 20 oed ac yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Tre-Gib. Mae'n aelod brwd o Glwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo ac erbyn hyn, mae'n chwilio am waith fel prentis gyda ffariar.



Mae Andrew Jones, Fferm Ffrwdwen, Capel Isaac, newydd gael yr anrhydedd o ennill y teitl 'Myfyriwr Ymarferol y Flwyddyn 2011' yng Ngholeg Gelli Aur. Mae Andrew wedi gwneud cwrs dwy flynedd yn astudio Amaeth ac wedi derbyn cymhwyster Diploma Cenedlaethol BTEC. Fe gafodd ei enwebu hefyd fel Myfyriwr y Flwyddyn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Mae Andrew yn gweithio ar Fferm Glanrwyth ar hyn o bryd yn ogystal â gweithio ar y fferm deuluol.



### Llywyddiant Ffion

Ym mis Gorffennaf, fe aeth Ffion Hemmings, Pantyclai, Penybanc sydd yn 15 oed ac yn mynychu Ysgol Tre-Gib, i'r *David Broom Events Centre* ger Cas-Gwent i gystadlu mewn cystadleuaeth neidio ceffylau. Ar ôl dau ddiwrnod o dreialon, fe gafodd yr anrhydedd o gael ei dewis fel aelod o'r tîm o bedwar i gynrychioli Cymru yn y treialon yn erbyn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon.

Fe neidiodd Ffion ddwy rownd glir ar ei cheffyl o'r enw 'Oh La La' sydd yn 14 mlwydd oed ac yn mesur 14.2 llaw.

Fe enillodd tîm Cymru y fedal aur am y tro cyntaf ers 14 mlynedd, ac fe gyflwynwyd nifer o wobrau iddynt gan Matthew Brown gan gynnwys medal aur a ryg i'r cheffyl.

Mae Ffion wedi bod yn marchogaeth ac yn neidio ceffylau ers ei bod yn 11 mlwydd oed. Prynodd ei rhieni geffyl iddi a dysgodd ei hun i farchogaeth.

Bu hefyd yn cynrychioli Cymru eto yn yr Alban ym mis Awst a chipiodd yr ail wobwr yn unigol a'r fedal efydd fel rhan o dîm Cymru. Da iawn ti Ffion a phob llwyddiant i ti yn y dyfodol!



## PONTARGOTHI



### Capel Siloam

Yn Oedfa Gymun Gorffennaf, cafodd Y Parch. Emyr Lyn Evans yr anrhydedd o weinyddu'r ordinhad o fedydd. Bedyddiwyd Erin merch fach Nantlais a Wendy Roberts-Jones, Caerdydd. Mae Erin yn wyres i Dorian ac Audrey Davies, Llwyn-yr-Eos, Pontargothi.

Dydd Sul, 17 Gorffennaf teithiodd aelodau yr ofalaeth i Soar y Mynydd, lle'r oedd y gweinidog, Y Parch Emyr Lyn Evans yn pregethu. Roedd y Capel hynafol yn llawn, wrth i aelodau Dyffryn Tywi, ac aelodau o Borth Tywyn ymuno gydag aelodau Soar yn yr addoliad. Wedi oedi ychydig ar lan Llyn Brianne, cafwyd pryd o fwyd blasus yn Nhafarn Yr Hydd Gwyn. Llandeilo i orffen y dydd.



## Reid beic nodedig plant Ysgol Sul Siloam



Gwelir y plant a'u rhieni ar ddechrau eu taith o ddeg milltir ar hyd llwybr arfordir Llanelli. Bu yn ddiwrnod llwyddiannus a chodwyd bron i £700 at gronfa'r Ysgol Sul. Diolch i bawb a gefnogodd y plant a diolch arbennig i Iwan a Meleri Cray am y trefnu.

### Cleifion

Dymuniadau am adferiad iechyd i'r bobl leol sydd wedi bod yn sal dros gyfnod yr haf gan dreulio cyfnod mewn ysbyty'n derbyn llawdriniaeth; y Parch. Rhobert Pattinson, Ficerdy; Tracy Jones, Heol y Deri; Bryan Raymond, Nantymab Isaf a Denny Thomas, Tawelan.

## PUMSAINT



### C.Ff.I.Dyffryn Cothi

Bydd noson agoriadol y clwb ar nos Iau, 1 Medi gyda barbeciw a gemau am 6.30pm yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r clwb ar y noson.

Ar ôl blwyddyn lwyddiannus iawn cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol y clwb. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Aelwyn Evans, y Llywydd am y flwyddyn a aeth heibio. Etholwyd y canlynol yn swyddogion am y flwyddyn 2011-2012: Llywydd - John Thomas, Frongoch; Llywydd Etholedig - Lyn Richards, Maesglas; Cadeirydd - Bethan Griffiths; Is-gadeirydd - Dyfan Evans; Trysorydd - David Astington; Is-drysorydd - Aled Davies; Ysgrifenydd - Lynwen Mathias; Is-ysgrifenydd - Carwen Richards; Ysgrifennydd Rhaglen - Eirwyn Richards; Ysgrifennydd Cofnodion - Endaf Griffiths; Rota te - Rebecca Dunbarton; Cofrestrydd - Sulwen Richards.

Mae dwy o aelodau'r clwb yn cael cyfle i deithio dramor yn haf yma. Gwneud gwaith gwirfoddol yn Kenya am fis gyda Ysgol Llambled bu Carwen Richards. Cael ei dewis i fod yn un o dim C.Ff.I. Cymru yn y Rali Ewropeaidd yn Slofenia gafodd Bethan Griffiths.

Cynhaliwyd Gornest Gneifio flynyddol y Clwb yng Nghwmcelyn trwy garedigrwydd Mr a Mrs Alun Richards. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn i'r cystadleuwyr o bell ac agos.

### Sioe Llanelwedd

Daeth gwobrau cyntaf i nifer o'r ardal yn eu cystadlaethau yn y Sioe. Llwyddodd Dafydd Lewis, Pentwyn i ennill dwy wobwr gyntaf - am farnu da biff a'r defaid yn yr adran hŷn, a chafodd Eirwyn Richards gyntaf ac ail yn yr un gystadleuaeth yn yr adran iau. Cafodd Gwyneth Richards, Cwmcelyn yn wobwr gyntaf a'r drydedd yn yr adran ffotograffiaeth. Daeth cardiau o bob lliw nôl i Rhydlydan yn adran y defaid, Llongyfarchiadau i chi bob un. Da hefyd gweld nifer o'r ardal yn cyflwyno a stiwardio yn y gwahanol adrannau.

## Eisteddfod Genedlaethol

Da oedd gweld Gwenan Evans yn rhan o'r tîm yn Ymryson y Beirdd. Cawsom gyfraniad gwreiddiol a doniol gan Gwenan fel arfer.

### Graddio

Llongyfarchiadau i Hayley Williams, Fferm Dolaucothi sydd wedi graddio gyda anrhydedd yn Feddyg o Ysgol Feddygaeth y Brifysgol yng Nghaerdydd. Mae bellach wedi cychwyn ei gwaith yn Ysbyty Llantrisant. Pob hwyl i ti eto wrth ddilyn dy yrfa feddygol.

Graddiodd Iona Thomas, Froodvale Mansion gyda 2:1 mewn Gwyddoniaeth Chwaraeon Llongyfarchiadau Iona a phob llwyddiant i ti wrth fynd ymlaen â dy ddiddordeb ym myd y canu.

### Awdur lleol

Tra ar wyliau gyda'i rhieni gwelwyd Wendy Bolton Williams yn dychwelyd i Lanymddyfri i lofnodi ei llyfrau. *Miraculous Magical Mystical Molly* ac *Another One Bites The Dust*. Cafodd brynhawn prysur a chyfle i gwrdd a llawer o ffrindiau bore oes. Ganwyd Wendy yng Ngwarnoethle yn ferch i Beti a Bevan Williams ond mae bellach yn byw yn Sbaen. Dymunwn iddi bob hwyl gyda'i hymchwil ar gyfer y llyfr nesaf yn y gyfres.

### Merched y Wawr

I ddechrau'r tymor newydd bydd aelodau Cangen Pumsaint ar 14 Medi yn ymweld ag arddangosfa Cwiltiau Jen Jones yn Llambled. Gwahoddir aelodau newydd i ymuno.

Bydd Rhagfyr 2011 yn adeg dathliad go arbennig i Cangen Pumsaint. Adeg dathlu cyrraedd y deugain oed. Gwahoddir cyn-aelodau i ymuno yn y dathliadau. Gellir cael manylion pellach wrth yr ysgrifennydd, Jean Evans (01558) 650414.

### Neuadd y Coroniad

Bydd dosbarthiadau Cyfrifiaduron a Chymraeg yn cychwyn eto ddiwedd Medi. Bydd y dosbarth Cymraeg yn cychwyn ar 19 Medi am 7pm. Ar 22 Medi bydd dau ddosbarth Cyfrifiaduron yn cychwyn, un am 9.30am ar gyfer y rhai sydd wedi dilyn cwrs blaenorol a'r llall am 11.30am i rai sydd am ddilyn eu cwrs cyntaf. Gellir cael y manylion llawn yn rhaglen Cyrsiau Addysg Gymunedol Sir Gâr. Y cyntaf i'r felin gaiff falu!

Croeso i chi ymuno mewn gweithgareddau eraill yn y Neuadd yn ystod mis Medi. Bydd y Clwb Garddio yn cyfarfod ar 21 Medi am 7.30pm ac ar 19 Hydref bydd Prif Arddwr newydd Gardd Aberglasney, yn dod i annerch am 7.30pm. Bydd cyfarfod nesaf y Clwb Crefftiau ar 12 Medi am 1.30pm. Blodau papur fydd thema'r cyfarfod.

Bob nos Lun bydd y clwb Cadw'n Heini yn cyfarfod am 6 o'r gloch. Ar nos Fawrth mae'r clwb dawnio bola yn cyfarfod. Bydd cyfle i ddod i drefnu rhaglen y gaeaf o'r Clwb Ceginio ar 6 Hydref am 2.30pm. Bydd Hanes Teulu yn ail gychwyn ar nos Fercher 28 Medi am 7pm Disgwylir cychwyn Clwb Ffilmiau yn ystod yr Hydref hefyd. Bydd manylion ar gael yn fuan. Wrth gwrs mae cyfle i ddod i chwarae *billiards* bron bob nos o'r wythnos.

## RHYDCYMERAU



### Croeso

Croeso i'r byd i Heulyn Elis, plentyn bach cyntaf Eilir a Meryl Davies, Bro Dolau, Rhydcymerau a anwyd ar 24 Mehefin. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r teulu bach.





## TALYLLYCHAU



## Cydyndeimlo

Blin cofnodi marw **Mr Tomi Humphreys**, Cwmglaw, Tallyllychau ar ôl brwydr ddewr yn erbyn ei salwch. Bu'n ffermwr diwyd a thrylwyr dros y blynyddoedd ac roedd yn uchel ei barch yn yr ardal.

Cydyndeimlir yn ddwys iawn â'i briod Daphne a'r merched Jane a Sara, John a Ruth a'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u colled.

## Dymuniadau gorau

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Beryl Williams, Blaenwaun a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar ac i bawb sydd wedi bod yn anhwylyd. Bu Marian Davies, Llwynycelyn a Janet James, Dolwerdd yn yr ysbyty ac mae nifer wedi bod yn sâl yn eu cartrefi. Dymunwn yn dda iddynt i gyd.

## Ymweliad â Thalylllychau

Ar brynhawn Sadwrn ym mis Gorffennaf ymwelodd aelodau Cymdeithas Ddiwylliadol Capel Mair, Aberteifi gyda'r gweinidog, y Parch Irfon Roberts â Thalylllychau gyda'r bwriad o gael ychydig o hanes yr abaty a'r emynydd Thomas Lewis.

Rhoddwyd braslun o hanes yr abaty gan Janet James a chyn symud ymlaen at yr eglwys a bedd Thomas Lewis, darllenwyd cerdd hyfryd y diweddar H. Meurig Evans 'Abaty Tallyllychau' gan y gweinidog.

Yn yr eglwys rhoddodd Janet James hanes yr eglwys a bywyd yr emynydd Thomas Lewis. Darllenodd y Parch Irfon Roberts soned y diweddar D.H. Culpitt 'Hen efail Thomas Lewis, Tallyllychau cyn i bawb ganu emyn enwog Thomas Lewis 'Wrth gofio' i riddfannau yn yr ardd'.

Wrth ddilyn y llwybr wrth ochr yr eglwys ymwelwyd â bedd Thomas Lewis a'r garreg a osodwyd i nodi'r bardd Dafydd ap Gwilym y credir gan nifer o academyddion blaenllaw ac eraill iddo gael ei gladdu yn Nhalylllychau.

Cafodd aelodau Cymdeithas Ddiwylliadol Capel Mair brynhawn hyfryd yn gwrando ar yr hanes gan ryfeddu at gyfoeth hanesyddol yr ardal. Diolchwyd yn gynnes iawn gan y gweinidog.

(Gweler y cerddi yn y gyfrol fechan 'Awen Myrddin' o gyfres Barddoniaeth y Siroedd – Llyfrau'r Dryw 1959).

## TRAP



## Y Sioe - lluniau ar y dudalen gefn

Cafwyd Sioe lwyddiannus dros ben eleni eto - un o'r goreuon gyda nifer fawr o ymwelwyr a chystadleuwyr a safon uchel iawn yng nghystadlaethau'r maes a'r babell. Bu'r tywydd yn garedig dros ben a'r awyrgylch o hwyl a chyfeillgarwch yn amlwg. Llywydd y sioe eleni oedd Dan Thomas, Trefin, Llandeilo, cefnogwr brwd o'r sioe ar hyd y blynyddoedd. Ar ddiwedd y dydd cyflwynwyd siec o ddwy fil o bunnoedd i Darryll Gittins a Tessa Watson ar ran *Braintrust*, elusen Meg Jones at gancr yr ymennydd - sef hanner elw y Ras Hwyl a'r rhif lwcus ynghyd â'r arian a godwyd mewn arwerthiant ar y noson. Roedd yn swm anrhydeddus iawn a diolchwn yn ddiffuant i bawb am eu cefnogaeth. Cyflwynwyd gwobrau hefyd gan Arwyn Williams, Gelli Plant a Simon Griffiths, SJ Griffiths a'r mab, noddwyr i'r rhai oedd wedi codi llawer o arian at yr achos wrth gymryd rhan yn y Ras Hwyl.

Cynhelir Noson Lawen flynyddol y sioe yn y Neuadd Ddinesig, Llandeilo ar nos Sadwrn, 8 Hydref am 7.30pm yng nghwmni Gwenda a Geinor, Côr Meibion Dyffryn Aman, Brian Walters ac eraill. Tocynnau: £6. Ffoniwch Beryl / Pat ar (01558) 823213 / 823265 am docynnau.

## Menter Bro Dinefwr

☎ (01558) 825336 ✉ post@menterbrodinefwr.org

## Gŵyl Bro Dinefwr 2011

Meic Stevens, Bryn Fôn, Elin Fflur, Gwibdaith Hen Fran a Jac y Do, rhai o'r artistiaid a wnaeth ymddangos yng Ngŵyl Bro Dinefwr eleni. Yn ystod penwythnos cyntaf mis Gorffennaf, daeth tyrfa o bobl i Fferm Glangwenlais yng Nghil-y-cwm i fwynhau dwy noson o gerddoriaeth Cymraeg ar ei orau.

Sefydlwyd yr ŵyl yn 2003, ac ers hynny mae'r digwyddiad wedi tyfu i fod yn un o wyliau cerddoriaeth Gymraeg mwyaf Cymru, gan ddenu artistiaid mwyaf blaenllaw'r wlad i berfformio.

Eleni am y tro cyntaf, fe wnaeth Menter Bro Dinefwr gynnal prynhawn i'r teulu ar y dydd Sadwrn yng nghwmni Gwibdaith Hen Fran, Jac y Do, Dawnsyr Penrhyd a Chwmni Perfformio Plant Sbarc. Daeth dros gant o bobl i ymuno yn y canu a'r twmpath, a bydd y prynhawn yn sicr o ddigwydd eto flwyddyn nesaf.

Hoffai Menter Bro Dinefwr ddiolch i bawb a wnaeth yr ŵyl eleni yn un lwyddiannus, nid yw'r ŵyl yn bosib heb gymorth y gymuned a'r holl wirfoddolwyr.

Bu niferoedd nos Sadwrn eleni yn record, gyda'r lle yn llawn i'r ymylon. Rhwng popeth mae'n argoeli'n dda ar gyfer dathlu'r degfed ŵyl yn 2012!

## 'Ar y Fwydlen' - Rownd Cyn-derfynol Ardal y Cothi

Yn dilyn cystadleuaeth frwd, bois Clwb Rygbi Llansawel fydd yn cynrychioli ardal y Cothi yn rownd derfynol 'Ar y Fwydlen' yng Ngŵyl Fwyd Gymunedol Blas Tywi. Daeth lluo gefnogwyr i



Neuadd Llansawel ar 11 Gorffennaf i gefnogi'r timoedd a chael ychydig o ysbrydoliaeth coginio.

Dan arweiniad y cogydd Anthony Evans, aeth Clwb Rygbi Llansawel a Chlwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Cothi ati i greu pryd o fwyd yn cynnwys saws *béarnaise*. Wrth i'r gwres godi yn y neuadd, cynyddu wnaeth y pwysau i orffen y pryd mewn amser a chyflwyno plât i'r beirniaid, y Cynghorydd Eirwyn Williams ac Isobel Davies o Lanymddyfri. Penderfynodd y ddau taw'r Clwb Rygbi oedd yn haeddu mynd ymlaen i'r rownd derfynol, pan fyddant yn wynebu tîm o ardal yr Aman.

Bydd rownd gynderfynol yr Aman ar 2 Medi rhwng y Clwb Gwawr Lleol a Bois yr Aman, yng Nghlwb Rygbi'r Aman am 7.30pm. Bydd y rownd derfynol ar brynhawn ddydd Sul, 11 Medi yng Ngŵyl Fwyd Gymunedol Blas Tywi, Parc Dinefwr, Llandeilo. Dewch i gefnogi'ch hoff dîm a gweld pwy fydd yn cael eu henwi'n bencampwyr y gegin!

## Llongyfarchiadau!

Hoffem estyn llongyfarchiadau mawr i Ddirprwy Brif Weithredwr y Fenter, Owain Glenister a'i gymar Kelly Williams ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Mali Haf. Ganwyd Mali ar 19 Gorffennaf yn pwyso 6 pwys 12 owns. Pob dymuniad da i'r teulu bach.



## DOCTOR! DOCTOR!

### Gwenwyn bwyd

Gydag achos arall o E.coli yn y newyddion fe allwn ni helpu ein hunain i sicrhau na all hyn ddigwydd yn y cartref trwy ddilyn camau syml wrth ymhél â bwyd. Mae'n bwysig golchi'r dwylo mewn dŵr cynnes a sebon cyn cyffwrdd â bwyd ac ar ôl trafod cig amrwd neu salad, ffrwythau a llysiau. Mae'n rhaid cofio golchi dwylo ar ôl unrhyw gysylltiad ag anifail anwes, ar ôl defnyddio'r tŷ bach, ac yn dilyn trin claf yn y cartref. Yn ogystal â bod yn ymwybodol o lendid personol mae'n rhaid gofalu bod yr offer coginio a'r mannau lle mae bwyd yn cael ei baratoi yn y gegin hefyd yn lân bob amser. Digon o ddŵr poeth a hylif glanhau. Syniad gwerth chweil ydy cael bordyn arwahan ar gyfer paratoi cig heb ei goginio. Mae coginio bwyd ar y tymheredd cywir yn sicrhau bod unrhyw facteria drwg yn cael ei ladd yn y broses. Yr adeg yma o'r flwyddyn, mae cyw iâr, porc, selsig a byrgers yn boblogaidd ac mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y cig wedi ei goginio drwyddo ac nad oes dim hylif pinc yn dod ohono. Cofiwch hefyd sicrhau nad oes dim cig heb ei goginio mewn man lle gall gyffwrdd â bwydydd parod i'w bwyta fel bara, salad a ffrwythau. Pan na fydd bwydydd o'r math yma'n cael eu coginio cyn eu bwyta does dim modd lladd y germau allai fod wedi eu trosglwyddo o'r cig.

Bob amser, storiwch gig amrwd mewn llestr glân ar silff waelod yr oergell i osgoi unrhyw bosiblwydd ohono'n dod i gyffyrddiad â bwydydd eraill neu ddiiferu arny'n nhw.

Does dim angen golchi ffowlyn dan y tap cyn ei goginio gan fydd y bacteria yn cael eu lladd yn y broses o goginio. Mae mwy o siawns y gall bacteria gael ei wasgaru dros fwydydd eraill cyfagos wrth geisio golchi'r cig. Golchwch salad, llysiau a ffrwythau yn ofalus gan fod y rhain yn cael eu bwyta heb eu coginio. Peidiwch ag ail gynhesu bwyd fwy nag unwaith, ac wrth ei ail gynhesu gwnewch yn siŵr fod y gwres wedi treiddio drwyddo i'w ganol. Gall cadachau golchi llestri a'r llyeiniau sychu fod yn hafan i facteria. Golchwch nhw'n aml a'u newid am rai newydd yn rheolaidd. Gydag ychydig o ofal gallwch gadw eich hunan a'ch teulu'n ddiogel rhag unrhyw wenwyn bwyd.

### Ras Beiciau'r Ddraig

Llongyfarchiadau i Dr Aled Williams am gwblhau Ras Beiciau'r Ddraig, Penybont-ar-Ogwr yn ddiweddar. Llwyddodd i orffen y cwrs 125 milltir oedd yn cynnwys 3,500 metr o dirwedd serth mewn chwe awr a hanner. Enghraifft dda o'r meddyg teulu yn gosod esiampl i ni i gyd i gadw'n heini ac yn iach.

(Trwy garedigrwydd **Meddygfa Teilo**)

### Pencampwriaeth Genedlaethol Cymru - Haf 2011

Mae rhai o nofwyr ifanc **Clwb Nofio Dyffryn Aman** wedi cyrraedd y safon angenrheidiol i gystadlu ym Mhencampwriaeth Genedlaethol Cymru, Haf 2011 ym Mhwl Cenedlaethol Cymru Abertawe ym mis Awst. Llongyfarchiadau a phob lwc i Josh Chapman, Catrin Fry, Emma Gordon, Siôn Kupsans, Lowri Mathias, Llyr Morgan a Serena Williams. Maent wedi gweithio'n galed iawn yn y pwll yn ystod 2011, ac wedi dangos tipyn o ymroddiad gyda rhai ohonynt yn ymarfer nofio cyn mynd i'r ysgol ac eto ar ôl ysgol; maent yn llawn haeddu eu lle ochr yn ochr â goreuon ein gwlad.

Mae 'na groeso i unrhyw blentyn 6 oed neu hŷn sydd â diddordeb mewn nofio gysylltu â Chlwb Nofio Dyffryn Aman; cynhelir noson agored pob nos Iau. Os oes diddordeb, gallwch gysylltu â'r clwb drwy ffonio Wyn Mathias (07766 660405) neu e-bostio [lwmathias@btinternet.com](mailto:lwmathias@btinternet.com) am fwy o wybodaeth. Yn ogystal, mae'r clwb yn ddwyieithog!

## ~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

### Cadeirydd

Gwenda Rees

Tŷ Nant

42 Parc Pencrug

Llandeilo SA19 6RZ

☎ (01558) 823546

### Uwch Olygydd

J. Mansel Charles

Sarn Gelli, Llanegwad

Nantgaredig

Caerfyrddin SA32 7NL

☎ (01558) 668823

☎ (07970) 031888

✉ [ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)

✉ [manselcharles@btinternet.com](mailto:manselcharles@btinternet.com)

### Trysorydd

Owain Siôn Gruffydd

☎ (01558) 825336

### Swyddog Hysbysebion

Wyn Williams

☎ (01550) 777834

### Swyddog Tanysgrifio

Peter Harries

☎ (01558) 823075

### Argraffu

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

☎ (01267) 233510

### Cofnodydd Cyfarfod

### Blynnyddol

Rhian Morgan

### Golygydd y mis

**Medi 2011**

Mared Tomos

### Cyfranwyr rheolaidd

*Rysait o'r Gegin*

Doreen Martin

*Y Gorlan Grefyddol*

Nigel Davies

*Llecyn Llên*

T.M.Thomas

*Tudalen y Plant*

Daniel Thomas

*Croesair*

Handel Jones (Agrestis)

### Ffotograffwyr

Gareth Vaughan Jones

☎ (01267) 220801

John Davies

☎ (01269) 850497

William Theophilus

☎ (01550) 720425

### Prawfddarlenn

Elin Bishop

Len Richards

### Teipio a Chysodi

Menter Bro Dinefwr

☎ (01558) 825336

## Cydnabyddir cefnogaeth



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD



[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

### DYDDIAD CAU - RHIFYN HYDREF

Rhaid i erthyglau gyrraedd yr Uwch Olygydd erbyn 15 Medi a'r newyddion bro erbyn 18 Medi. Fe fydd rhifyn nesaf yn cyrraedd y siopau erbyn 26 Medi.

### RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG

Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)

Nid yw'r Lloffwr o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir ym mhob un o erthyglau'r papur





## ~ DIGWYDDIADUR 2011 ~

## MEDI


- 2 Noson Werin yn Nhafarn Cwmdu. Cyswllt: (01558) 685088.
- 3 Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys Brechfa. 7.30pm. Elw: Cronfa Atgyweirio'r Eglwys a'r Neuadd. Cyswllt: Helen Daniels (01267) 202410.
- 9 Cyfnewid Dillad Plant yn Neuadd Brechfa am 6pm. Elw tuag at Ysgol Gynradd Brechfa. Cadwch ddillad addas ar gyfer yr achlysur yma.
- 9 Noson Lawen ar Fferm Langwm, Llandeilo gyda Trebor Edwards, Llew Davies ac 'Amheus'. Elw at elusennau lleol. Mynediad £10. Cyswllt: (01558) 822698.
- 10 Sioe Amaethyddol Llansawel.
- 10 Rhost Mochyn Brechfa yn Neuadd yr Eglwys, Brechfa am 6pm. Elw tuag at Eglwys Sant Teilo, Brechfa.
- 10 Noson elusennol i Ymchwil y Galon yn Neuadd Llanarthne am 7.30pm. Artistiaid: Côr Merched Curiad y Cwm; Emyr Jones; Ffion a Meinir. Tocyn: £7.50 yn cynnwys gwin a canapés hanner amser.
- 10, 11 Gŵyl Fwyd Gymunedol Blas Tywi ym Mharc Dinefwr, Llandeilo.
- 16 Swper y cynhaef yn Neuadd Llansawel. Elw: Elusen amaethyddol R.A.B.I. 7.30pm. Siaradwr gwadd: Malcolm Thomas. Tocyn: £12
- 17 Ras hwyaid Pwyllgor Yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri ar yr Afon Lash ger Sgwâr Dryslwyn.
- 17 Cyngerdd yn Eglwys Llanfihangel Rhos y Corn. 7.30pm.
- 18 Cyrddau Mawr Capel Soar Llandyfan am 2pm gyda'r Parch. Carl Williams yn pregethu. Croeso i bawb.
- 19 Gyrfa chwist yn Neuadd Brechfa er budd elusennau lleol. 7.30pm.
- 24 Bore Coffi Elusen Macmillan yng Ngwesty Glasfryn, Brechfa. 10.30am.
- 24 Eisteddfod Llanwrtyd yn Neuadd Fictoria. Manylion pellach gan Susan Price, Pant-teg, Llanwrtyd, (01591) 610303.
- 24 Gyrfa Chwist yn yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri. 7.30pm.
- 24, 25 Gŵyl Ddefaid Llanyddyd. 10am-6pm.
- 25 Cymanfa Gydenwadol Llandeilo a'r Fro am 7.30pm yn y Capel Newydd, Llandeilo. Arweinydd: Alun Guy. Organydd: Owain Gruffydd. Rhaglen - £2. Cynhelir rihyrsal ar 11 Medi am 7.30pm hefyd yn y Capel Newydd.
- 29 Noson Dominos yn Nhafarn y Cennen am 7.30pm. Elw at adnewyddu Hen Ysgol Trap.
- 29 Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo a'r cylch yn Yr Hydd Gwyn, Llandeilo. 7.45pm. Siaradwr gwadd: Peter Hughes-Griffiths, Caerfyrddin. Enwau i Elfryn Daniels ar (01267) 290323.

## HYDREF

- 1 Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys Brechfa. 7.30pm. Elw: Cronfa Atgyweirio'r Eglwys a'r Neuadd. Cyswllt: Helen Daniels (01267) 202410.
- 7 Noson Siopa yn Neuadd Pantglas, Llanfynydd. 7.30pm. Trefnir gan Gyfeillion Cylch Ti a Fi, Cwrt Henri.
- 7 Noson Werin yn Nhafarn Cwmdu. Cyswllt: (01558) 685088.
- 7 Ffair Grefftau Glyn Cothi yn Neuadd Brechfa. Cyswllt: Rachael Davies (01267) 202711.
- 8 Swper Cynhaef Plaid Cymru yn Neuadd Brofana Farmers am 7pm. Y siaradwr gwadd fydd Rhodri Gomer Davies.

## ~ CROESAIR ~

gan Agrestis



## Ar draws

5. Toriad dydd (5)
6. Adeilad o dan ofal abad (5)
8. Nid prynhawn (4)
9. Ymyl (3)
10. Bachgen yn plygu tocyn (4)
11. Lleihau (7)
13. Heb gyfoeth (5)
16. Epynt, er enghraifft (5)
18. Dirgryniad (7)
21. Bachgen yn cyfrif ansoddeiriau (4)
23. Fan draw (3)
24. Tail defaid wedi caledu yn y gwlân (4)
25. Gŵr â doniau hudol (5)
26. Anfodlonrwydd i weithio (5)

## I lawr

1. Afon yng Ngwent a Wernolau (4)
2. Bydd mis mêl yn dilyn hon fel arfer (7)
3. Blasu (5)
4. Bowlen (4)
5. Bydd hon yn cydnabod rhagoriaeth (5)
7. Amrediad (5)
12. Ocsigen neu nitrogen (3)
14. Leonard bach (3)
15. Dychryn (7)
17. Twpsyn (5)
19. Bydd ffordd o'r fath yn mynd heibio i dref (5)
20. Darn o borfa sy'n cael ei gadw'n daclus (5)
22. Anodd yw gweld trwy hwn (4)
24. Brathu (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto.  
Atebion at yr Uwch Olygydd cyn **18 Medi 2011**.

ENW:.....

CYFEIRIAD:.....

FFÔN:.....

ENILLYDD CROESAIR GORFFENNAF/AWST:

**Dewi Williams**, Rhosybedw, Ffaldybrenin, Llanwrda.

## ATEBION

**Ar draws** 5. Drama 6. Rabat 8. Yfed 9. Eos 10. Ywen  
11. Adroddwr 13. Munud 16. Hidlo 18. Gwichian 21. Brys  
23. Awr 24. Llawn 25. Galar 26. Mwyar **I lawr** 1. Ffawd  
2. Tawelwch 3. Trist 4. Ebwy 5. Defod 7. Taenu 12. Odli 14. Uwch  
15. Awgrymu 17. Iorwg 19. Arwyr 20. Maori 22. Salm 24. Llwyd



## ~ HYSBYSEBION ~

**SPAR** 

**Canolfan Loteri**  
**Hurio DVD's**  
**Bwydydd**

Mr & Mrs Patel  
Spar Llandeilo  
56 Heol Newydd  
Llandeilo  
SA19 6DF  
(01558) 823592

**Gwasanaeth**  
**Parcel**  
**Sioop drwyddedig**  
**PayPoint**

Amserau agor: 7am - 10.30pm  
(Pob un diwrnod o'r flwyddyn)

**DEWI ROBERTS**  
**Cigydd Teuluol**

**CIG EIDION CYMRAEG O SAFON**  
**GWASANAETH ARCHBUTRWR YR POST**  
**CIGOEDD ORGANIG**

18 TERAS TYWI, FFAIR-FACH,  
LLANDEILO, SA19 6ST  
☎ (01558) 822566




**JONES**  
**TELEVISION**

**Gwerthu, Rhentu a Gwasanaeth Domestig**  
☎ Nantgaredig (01267) 290372 / (01267) 290573  
*Eich busnes annibynnol lleol lle mae gofal cwsmer yn cael ei warantu - dosbarthu am ddim (hyd at 30 milltir)*

**Teledu, Fideo, Peiriannau Golchi a Sychu**  
**Systemau Hi-fi, Oergelloedd a Rhewgelloedd**  
Gosod am ddim i bwyntiau sy'n bodoli eisoes  
**HOTPOINT - PHILIPS - SIEMENS - BOSCH**  
**JVC - HOOVER - CANNON - DIMPLEX**

**Igam Ogam**  
**Anrhegion Di-ri**  
yn arbenigo mewn nwyddau Cymraeg personol

Cardiau  
Brodwaith  
'bunting'  
Crysau-t unigryw  
bagiau personol  
crochenwaith  
'hoodies'

103 Stryd Rhosmaen,  
Llandeilo,  
Sir Gaerfyrddin,  
SA19 6HA,  
Ffon 01558 822698  
www.igamogamgifts.co.uk



**HAYDN ADAMS**  
**PEINTIWR A PHAPURWR**

10 Heol y Frenhines,  
Llanymddyfri,  
Sir Gâr

☎ 01550 721754 / 07776036642




**EIFION ROBERTS**  
**PLYMWR PROFIADOL**

Arbenigwr mewn gwres canolog

☎ (01558) 685007

**AQUAFIX WATER & ELECTRICS LTD**

**ARBENIGWYR MEWN SYSTEMAU**  
**DWR GLÂN A BRWNT**

**Ffoniwch Gareth neu Jean** ☎ 01269 841 800 / 07814 027 045  
Uned 6, Stad Ddiwydiannol Gorslas,  
Gorslas, Sir Gâr

**W.D. Lewis**  
**a'i Fab**

Cangen Pumsaint, Broneb Stores  
Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin  
☎ (01558) 650215  
☎ (01570) 422540  
AM EICH HOLL NWYDDAU  
AMAETHYDDOL CYSYLLTWCH Â NI.

Masnachwyr Amaethyddol  
Agricultural Merchants

Am fusnes cyfeillgar, teuluol,  
profiadol yn y byd amaethyddol,  
heb os, i'ch stoc cewch fwydd  
maethlon yn W.D. a sylw prydlon.



**JOHN ANTHONY**  
a'i Gwmni

**CERFLUNWYR**  
**COFADEILIAU**  
**a SEIRI MAEN**

Perch. E. Ja  
N. Gimblett  
(C. Harry gynt)

24 STRYD FAWR, RHYDAMAN  
☎ (01269) 596227 Nos: 592935

*Cerflunwyr Cofadeiliau yn y lle uchod ers 1920 hefyd yn*  
123 STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO  
☎ (01558) 823104



Cysylltwch â Gerwyn Davies yn  
Swyddfa'r NFU Mutual yn Llandeilo  
ar (01558) 823382

**Am wasanaeth**  
**lleol o safon**  
**-**  
**yswiriant**  
**pensiynau a**  
**buddsoddiadau**








# ~ TUDALEN Y PLANT ~

Helo bawb!


Gobeithio eich bod i  
gyd wedi mwynhau'r  
gwyliau!

Mae'n amser mynd  
yn ôl i'r ysgol nawr.  
Lliwiwch y llun o  
nosbarth i yn yr  
ysgol.


Hwyl am y tro,  
Elis



Cysylltwch y dotiau



Lliwiwch y llun



Enillydd y mis diwethaf oedd:

**Sophie Locking**, Fferm Penrhiw, Garnswllt, SA18 2RR - 3 oed.

Anfonwch eich cynigion at

Elis, Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo erbyn 18 Medi 2011.



## ~ HYSBYSEBION ~

**L.J. BAILEY A'T FEIBION**

LLANGADOG (Siop Fwydydd MACE)

*Prisiau cystadleuol**Pob math o gig a bacwn o ansawdd da  
Gwasanaeth rhagorol bob amser*

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]

☎ (01550) 777242 [Cigydd]

**ALUN DAVIES****ADEILADWR**

Cilgawod, Caio, Llanwrda, Sir Gâr, SA19 8PG

☎ 01558 650570 [Cartref] / 07974 716211 [Symudol]

e-bost: [alundavies1@hotmail.com](mailto:alundavies1@hotmail.com)

Ar gyfer pob math o waith adeiladu, cartrefi newydd, atyniadau, estyniadau, adnewyddu ac adfer adeiladau cofrestredig, toeon a simneau, ffenestri a drysau PVC

**Am wasanaeth heb ei ail a chreffftwaith o safon.****RED DRAGON ATV'S Y DDRAIG COCH**

Ffarmers, Llanwrda

**BEICIAU NEWYDD, TEIARS****RHANNAU, GWASANAETH**

Dewch ata i gyda'ch Honda ATV

**Ffoniwch Irfon ar (01558) 650740****D. L. WILLIAMS**

Iard Pant-yr-Esgair, Talylychau, Llandeilo

*Masnachwr llechi a phob math o goed*

Bwyd anifeiliaid Bibby

☎ (01558) 685217(dydd) / 685722 (nos)

**GERAINT WILLIAMS**

Modurdy Rhosybedw

Ffaldybrenin

Profion MOT, Batteries,  
Exhausts

☎ (01558)

**650609**Gwasanaeth Adfer  
ac Atgyweirio**ADEILAD CLADDINGS**

(EIRIAN DAVIES)

Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda

☎ (01550) 777497

Zinc sheets a steel girders, arbenigwyr mewn toeon crwn

**CYNLLUNIAU**

Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau

**MARTIN WATTS****Architectural Associates Ltd**

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr

Ffôn: Llangadog (01550) 777591

**A & B Plant & Tool Hire**

BRYNDOLAU, FFARMERS

LLANWRDA, SIR GÂR

SA19 8JP

**ARAGOR**

LLUN - GWE 8.00 - 5.30

SAD 8.00 - 1.00

**FFÔN PUMSAINT. 01558 650536****FFACS PUMSAINT. 01558 650516****CARPEDI  
PUMSAINT**Gwasanaeth gosod carpedi  
hen, ail-osod neu newydd

Ffoniwch Alun

(01558) 650364

neu 07977 121201

AXMINSTERS, WILTON,  
TWISTS, GWLAN, CORDS,  
CUSHIONFLOOR,  
UNDERLAYS*"Carpedi i Siwtio Pawb"*Gellir trefnu ymweliad â'r  
cartref gyda samplau.**Roger Davies  
LLOGI PEIRIANNAU**Gwnawn unrhyw waith -  
bach neu fawr

20 mlynedd o brofiad

☎ (01558) 685614

☎ 07968 838467

Peiriannau turio â thraciau 5-15 tonnall.  
Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio  
draeni ac unrhyw waith arall gyda pheiriannau  
trymion.Cwmgolygfa, Rhydcymerau,  
Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP**SIOP Y PENTAN**Y dewis gorau o lyfrau  
casetiau a chardiau Cymraeg

Crefftau lleol newydd!

Gwasanaeth Ysgolion

Y FARCHNAD  
CAERFYRDDIN

☎ (01267) 235044

**WILLIAM I.  
PHILLIPS**

DERWENEG, LLANSAWEL

☎ (01558) 685446

Symudol 07836598989

**CONTRACTWR CLUDIANT****CYNNYRCH CHWAREL****NEW ROAD GARAGE**

☎ (01550) 720836

Gwerthir petrol a diesel yma

Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni!

Unrhyw amser o'r dydd neu'r nos

Pob math o wasanaeth moduron a  
gwaith atgyweirio ffrâm**CHECKPOINT**☎ (01558)  
**650338***'Tyres, Exhausts a  
Batteries'  
Profion M.O.T*



## ~ CEFN GWLAD ~

## Gwarchod gwiwerod coch Sir Gaerfyrddin



Bu aelodau o'r cyhoedd yn helpu i arolygu gwiwerod coch yng nghoedwig Bryn Arau Duon ger Pumsaint yn Sir Gaerfyrddin ar ddydd Sadwrn 13 Awst. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent a'r Cyngor Cefn Gwlad oedd yn trefnu'r digwyddiad. Cafodd y gwirfoddolwyr gyfle i arolygu llecynnu arbennig o goedwig Bryn Arau Duon i chwilio am

wiwerod coch ac arwyddion eu bod yno. Mae gwiwerod coch ymhlith mamaliaid prinnaf Cymru, ac mae'r Canolbarth yn un o dri lle yng Nghymru sydd â phoblogaeth sylweddol o wiwerod coch o hyd.

Yr arolwg yma oedd y cyntaf o nifer o arolygon tebyg fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf. Maen nhw'n rhan o brosiect newydd, gwerth miliwn o bunnoedd, o'r enw Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy. Nod y prosiect yma yw arolygu a gwarchod nifer o wahanol famaliaid y naill ochr a'r llall i Fôr Iwerddon, gan geisio cyfoethogi bioamrywiaeth y rhanbarthau. Mae'r rhywogaethau a fydd yn cael eu monitro'n cynnwys beload, gwiwerod coch, llygod yr ŷd a phathewod.

Nod y prosiect yw casglu gwybodaeth am statws presennol y mamaliaid a'u cynefinoedd, gan ddefnyddio technegau DNA arloesol i adnabod rhywogaethau ac unigolion o samplau fel blew a baw. Yn ôl Jenny MacPherson, swyddog prosiect Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, a'r sawl sy'n trefnu'r arolwg ar wiwerod coch: "Mae'r gwaith rydyn ni wedi ei wneud yn y gorffennol wedi dangos bod modd i ni gyflawni llawer iawn â chymorth gwirfoddolwyr. Yn sgil y prosiect yma, y gobaith yw y gallwn ni ddenu nid yn unig pobl sydd â phrofiad o wneud gwaith maes, ond hefyd pobl sydd ddim wedi gwneud rhywbeth fel hyn o'r blaen ond sy'n meddwl ei fod yn swnio'n ddiddorol."

Ar ddechrau'r diwrnod, cafodd y gwirfoddolwyr rhywfaint o hyfforddiant ar sut i gynnal arolygon, ac yna roedden nhw'n mentro allan mewn timau. Daeth y gwaith maes i ben am 5pm, ac yna casglwyd y samplau a'r taflenni arolygu. Yna bu cyflwyniad byr ar warchod gwiwerod coch yn y Royal Oak yn Rhandir-mwyn.

## Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri



Cofiwch am Ŵyl Ddefaid Llanymddyfri a fydd yn cael ei chynnal ar 24 a 25 o Fedi yn Llanymddyfri.

Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â'r wefan:

[www.llandoverlysheepfestival.co.uk](http://www.llandoverlysheepfestival.co.uk)

## BRIWSION O'R BUARTH

gan Y Lloffwr Bach



Dydw i ddim wedi clywed yr ymadrodd ers blynnyddoedd maith, ond cofiaf hen of, wrth bedoli ceffyl, yn dweud: "Rhaid ca'l y cwbl yn gywir i'r winfedd". Hynny yw, rhaid bod mor gywir ag y gall unrhyw un fod.

**Ewinfedd**, sef y mesur lleiaf oll, yw ffurf gysefin y gair, a'i ystyr yw lled ewin. Er mor anfyfych y clywir *ewinfedd*, rydym yn gyfarwydd iawn â mesurau eraill sy'n ymwneud â'r corff.

Cymerwch **modfedd**, er enghraifft. Mae'r gair a ddefnyddiwn erbyn hyn yn deillio o *bawdfedd*, sef lled bawd.

Dyma i chi enghreifftiau pellach o fesuriadau a'u hystyron:

|                       |                                                                                                                                                                                     |
|-----------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Dyrnfedd:</b>      | lled llaw - Pedair modfedd                                                                                                                                                          |
| <b>Dyrnfedd bica:</b> | chwe modfedd (gyda'r bawd yn estynedig)                                                                                                                                             |
| <b>Rhychwant:</b>     | o flaen y bawd i flaen yr hirfys - 9 modfedd                                                                                                                                        |
| <b>Troedfedd:</b>     | hyd troed, 12 modfedd                                                                                                                                                               |
| <b>Cyfelin:</b>       | o ben yr elin hyd at flaen y bys canol. Mesuro droedfedd a hanner. Hanner llath. llath yr ên. O'r ên hyd flaen y bysedd a'r fraich yn estynedig. Tair troedfedd. hyd gŵr. Dwy lath. |
| <b>Llathen:</b>       |                                                                                                                                                                                     |
| <b>Gwrhyd:</b>        |                                                                                                                                                                                     |

I ddychwelyd at *ewinfedd* a gair sy'n gyfystyr ag ef, sef **gronyn** a ddefnyddir mewn ymadroddion fel 'Does dim gronyn o wirionedd yn hyn'. Mewn rhai hen gyfreithiau, roedd *gronyn* yn cyfeirio at ronyn o wenith a byddai tri gronyn mewn modfedd

Yn ôl hen gyfreithiau Cymru, roedd tair modfedd yn hafal i led y balf. Dyna pam mae ychwanegu'r bawd (modfedd) yn creu lled llaw (dyrnfedd), sef pedair modfedd. Ac yn ôl dyrnfeddi y byddwn yn mesur uchder ceffyl hyd y dydd heddiw.

Oni fyddai'n drueni pe baem yn gorfod ildio'n gyfan gwbl i'r drefn Ewropeaidd a gorfod mesur popeth yn ôl metrau a gramau!

## Derbyn Anrhydedd

Lle i anrhydeddu gweithwyr yn y maes ynghyd â phobl sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i amaethyddiaeth yw'r Sioe Frenhinol. I'r ail gategori y perthyn Elin Rhys, Penrhiw-goch, Rheolwr Gyfarwyddwraig Telesgop sy'n cynhyrchu rhaglen Ffermio. Eleni, iddi hi yr aeth Gwobr Goffa Bob Davies, Undeb Amaethwyr Cymru.



Emyr Jones, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru yn cyflwyno'r wobr i Elin Rhys.



## M+J TYRES GARAGE SERVICES Ltd

Teiars, Brêcs, Batris, ecsôsts, a gwasanaethu.

Mae John a Mark (ATS-gynt) yn eich gwahoddi i alw mewn!



A476 Ffair-fach i Garmel cyn troad Derwydd

Park Lane, Gelli Aur, SA32 8NW. (01558) 823427



## Heel Appeal

129 Stryd Rhosmaen, Llandeilo ☎ (01558) 823294

*Esgidiau lledr o safon uchel!*

*Bagiau a chyfwisgoedd amrywiol ac unigryw o'r Eidal, Sbaen a'r Almaen*

*Digon mewn stoc bob amser*

## Eric Davies GOSODWR TEILS



Gwaith yn cynnwys pob agwedd ar adnewyddu, ceginau, ystafelloedd ymolchi a lloriau.

Derwendeg, Pontargoethi, Caerfyrddin, SA32 7NH

☎ (01267) 290236 ac 07966 542586

~ SEFYDLWYD 1797 ~

## D. LLOYD A'I FEIBION GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

☎ (01558) 650209 a 650451

Ffacs: 01558 650440

*Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu, a ffensio o bob math.*

*Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau.*

## Gwasanaethau Fferm a Busnes Cyffredinol

**Dai Dyer B.Sc. Amaeth (Anrh)**

**Ffôn: 01550 720956 / 07977 913637**

Cyfrifon TAW a Chyffredinol

Glastir

Materion Cynllunio Byd Amaeth

Taliadau Sengl (SFP)

Cofnodion Fferm

Penroc, Heol Llangadog,  
Llanymddyfri, SA20 0DZ



18 Stryd  
Caerfyrddin,  
Llandeilo  
SA19 6AE

(01558) 823658

22 Stryd y Cerrig,  
Llanymddyfri  
SA20 0JP  
(01550) 720500

**Dr Rhys Ap Delwyn**

**Phillips**

B.D.S., MSc., M.F.G.D.P.

**Dr Aimee Jones**

B.D.S. Caerdydd

**DROS 30 O FLYNYDDOEDD**

**O WASANAETH DEINTYDDOL**

**TEULUOL TRADDODIADOL**

**YN COFRESTRU CLEIFION NEWYDD**

trywydd

Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol  
am bris cystadleuol

### Gwasanaethau Iaith

- cyfieithu ar y pryd
- cyfieithu ysgrifenedig
- golygu a phrawf-ddarllen

### Gwasanaethau Ymgynghorol

- hyfforddiant
- ymchwil
- rheoli prosiectau

### Llogi Offer

- cyfieithu ar y pryd
- sain a goleuo
- cynadledda

### Trywydd

Y Llwyfan, Heol y Coleg  
Caerfyrddin SA31 3EQ

ffôn 01558 825336  
ffacs 01558 825339

post@trywydd.co.uk  
www.trywydd.co.uk

Un o wasanaethau

Menter Bro Dinefwr



## ~ Y GORLAN GREFYDDOL ~

### Bwrlwm Bro Sir Gaerfyrddin 2011

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Menter Ieuentid Cristnogol (Sir Gâr) yn cynnal Bwrlwm Bro mewn gwahanol ardaloedd ar draws y sir. Trefnwyd sesiynau yn Llangadog, Rhydaman, Tymbll, Caerfyrddin a Llwynhendy. Prif bwrpas y sesiynau hyn oedd calonogi a sbarduno gwaith yr Ysgolion Sul trwy roi cyfle llawn hwyl i blant ddysgu a chymdeithasu yng nghwmni ei gilydd.

Trwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau a gemau daeth yr hanes am y dyn a anwyd yn ddall yn fyw ym mhrofiad y plant. Cafwyd llawer o hwyl wrth ddysgu am y dyn di-enw a iachawyd gan Iesu trwy roi mwd ar ei lygaid. Ond nid dod i weld gyda'i lygaid yn unig a wnaeth y dyn ond daeth i weld gyda'i galon hefyd. Heriwyd y plant i ddilyn esiampl y dyn a oedd unwaith yn ddall i agor eu calonau i "weld" pwy yw Iesu a'i dderbyn fel ffrind i'w bywyd.

Y nod oedd gwneud yr Ysgol Sul yn achlysur llawn hwyl, heb gollu golwg ar y prif bwrpas o gyflwyno efengyl Iesu Grist mewn ffordd syml, ddealladwy a pherthnasol ar gyfer heddiw. Pan ddaeth yn amser i ymadael roedd yn amlwg wrth wynebau llawen y plant eu bod wedi mwynhau'n fawr y profiad o gael uno gyda'i gilydd mewn dathliad cyfoes o'r ffydd. Mae lluniau o daith Bwrlwm Bro i'w gweld ar

[www.micsirgar.org](http://www.micsirgar.org)



### Cymanfa Ganu Gydenwadol Llandeilo a'r Fro

Mae'r wythnosau'n hedfan heibio a'r rhaglenni'n gwerthu'n gyflym ar gyfer Cymanfa Ganu Gydenwadol newydd Llandeilo a'r Fro a gynhelir ar 25 Medi am 7.30pm yn y Capel Newydd, Llandeilo. Yr arweinydd fydd Alun Guy, Caerdydd gydag Owain Gruffydd, Ffair-fach wrth yr organ ac Aelwyd Llyn y Fan yn artistiaid gwadd.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y Gymanfa hon a gynhelir am y tro cyntaf eleni, mewn partneriaeth rhwng enwadau anghydfurfiol Cymraeg ardal Llandeilo. Y bwriad wedyn yw cynnal Cymanfa Ganu Gymraeg yn flynyddol ar y cyd rhwng y tri enwad, gan fynd o gwmpas y tri chapel yn y dref yn eu tro, sef Capel Newydd, Ebeneser a Salem. Braff iawn yw gweld cydweithio agos ac adeiladol ac edrychwn ymlaen at weld y Gymanfa'n datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r rhaglenni yn £2 ac ar gael oddi wrth y capeli neu drwy ffonio (01558) 825336. Cynhelir rihyrsal ar 11 Medi am 7.30pm yn y Capel Newydd hefyd. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at eich croesawu i'r Gymanfa i ymuno â ni yn y canu.

### Cyrddau Pregethu Providence, Llangadog

Ar ddydd Sul, 10 Gorffennaf cynhaliwyd Cyrddau Pregethu Blynyddol Eglwys Providence. Y Pregethwr gwadd oedd y Parch. Guto Prys ap Gwynfor. Croesawyd ef yn gynnes gan y llywydd, Rhian Morgan. Y cyfeilydd oedd Ydwenna Davies.

Yn y prynhawn cafwyd oedfa'r plant. I ddechrau'r oedfa, ar ôl yr Intrada cafwyd gweddi fer gan y llywydd, Carys Davies a hi groesawodd y gŵr gwadd.

Lluniwyd yr oedfa gan Linda Williams a'r neges oedd "Mae amser i bob peth yn ôl trefn Duw" fel a ddarllenwyd o Lyfr y Pregethwr gan Aaron Hughes ac Ifan Williams, ac o'r Testament Newydd gan Elen Fflur Davies. Yn adrodd rhannau o'r Hen Destament oedd Guto Dafydd, Ioan Hughes, Harri Doel, Trystan Davies, Gwenllian Jenkins, Hannah Doel, Fflur Richards, Jac Doel a Lois Williams. Darllenwyd emynau i'w canu gan Osian Richards, Steffan a Iestyn Thomas, Manon Roberts, Celyn Thomas, Iolo Dafydd, Catrin a Sara Price. Offrymwyd gweddïau gan Heledd Roberts a Jack Davies.

Cafwyd tair cân gan y plant, ac unawd gan Iolo Roberts. Y casglwyr oedd Cian Thomas ac Osian Richards. Marjorie Hughes oedd y cyfeilydd. Cafwyd neges gofiadwy a lliwgar gan y Parch. Guto Prys ap Gwynfor a dosbarthodd Dystysgrifau Arholiad, a'r Genhadaeth i'r plant. Diolchodd yn gynnes iddynt am eu gwaith yn yr oedfa.

Alan Rowlands fu'n diolch yn gynnes i'r gŵr gwadd, i'r llywydd, i'r plant, ac i'r athrawon am gynorthwyo i ddysgu'r plant.





## ~ LLECYN LLÊN ~

### Cystadleuaeth

Dyma'r atebion i'r gystadleuaeth a osodwyd ym mis Mehefin.

- 1) Codwyd Castell Windsor gan y brenin William y Cyntaf (Y Concwerwr) yn y flwyddyn 1078, ar safle hen gastell Eingl-Sacsoniaidd, er i frenhinoedd eraill ychwanegu ato yn ddiweddarach.
- 2) Y bardd a enillodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol am awdl ar y testun, Yr Amaethwr oedd y cyn-archdderwydd Geraint Bowen yn Aberpennar yn 1946. Bu ef farw'r haf hwn yn 95 oed.
- 3) Yn y nofel 'A Christmas Carol' gan Charles Dickens, ymddangosodd ysbryd ei hen bartner Jacob Marley i Scrooge, gan ei rybuddio i newid o'i fywyd cybyddlyd.
- 4) Pedair llinell sydd mewn triban, gyda'r ddwy linell gyntaf yn odli gyda'r llinell olaf, a'r drydedd yn odli gyda chanol y llinell olaf.
- 5) Mae Carwyn Jones, Prif Weinidog presennol Cymru, yn cynrychioli Penybont-ar-Ogwr yn y Senedd.
- 6) Y Parch. Chad Verah a fu'n gyfrifol am roi cychwyn i'r gymdeithas ddyngarol a adnabyddwn fel Y Samariaid.
- 7) Yr awdur Rwsiaid Nicholaevich Tolstoy (1828-1910), a ysgrifennodd y nofelau enwog *War and Peace* ac *Anna Karenina*.
- 8) Bydd yr Eglwysi Saesneg yn ystod y flwyddyn hon yn dathlu pedwar can mlwyddiant cyhoeddi'r cyfieithiad o'r Beibl â orchmynnwyd gan y brenin James y Cyntaf yn 1611, a adnabyddir bellach fel y Cyfieithiad Awdurdodedig.
- 9) Ceir y delyneg fach hyfryd 'Cymru fach i mi' yn y gyfrol Telynegion Maes a Môr gan Eifion Wyn.
- 10) Launcelot Brown (Capability Brown), tirlunydd enwocaf ym Mhrydain. Saethwyd ef yn farw yn Nhŷ'r Cyffredin gan ŵr o'r enw John Bellingham ar 11 Mawrth 1812.
- 11) Treuliodd y tair chwaer ddawnus, Emily, Charlotte ac Anne Bronte eu bywydau byr yn cyfansoddi eu campweithiau llenyddol yn y Persondy yn Haworth, yn unigeddau Rhosdir Sir Efrog.

Llwyddodd dau ymgeisydd i gael yr atebion yn gywir. Diolch i'r holl ymgeiswyr eraill am eu cefnogaeth i'r gystadleuaeth. Yr enillydd ffodus y tro hwn oedd **Margaret Evans**, Ystrad Brân, Cynghordy, Llanymddyfri.

Dyma'r gystadleuaeth nesaf;

- 1) Pwy a ysgrifennodd gofiant i'r actor o Fôn, Hugh Gruffydd yn ddiweddar?
- 2) Cyfansoddodd bardd Saesneg gyfrol o gerddi hiraethus am Sir Amwythig a ddaeth yn boblogaidd iawn, enwch y bardd neu'r gyfrol.
- 3) Ym mha ran o'r Beibl y cewch y rhan o ddysgeidiaeth Iesu Grist a adnabyddir fel y Bregeth ar y Mynydd?
- 4) Daeth Nell Gwyn, y gwerthwr ffrwythau ar strydoedd Llundain, ac a oedd o dras Gymreig, yn enwog am ddod yn gariad i'r brenin. Pa frenin?
- 5) Pwy a benodwyd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn Fardd Plant Cymru am y 2 flynedd nesaf?
- 6) Mewn chwedloniaeth Roeg, beth oedd enw'r ceffyl adeiniog a alluogodd Bellerophon i gyflawni campau peryglus fel lladd y Chimaera a gorchfygu'r Amazoniaid?
- 7) Dail Pren oedd enw'r unig gyfrol o farddoniaeth a gyhoeddwyd gan un o feirdd pwysigaf y ganrif ddiwethaf. Pwy oedd?

- 8) Pa un o frenhinoedd Prydain a briododd weddw Tywysog Cymru?
- 9) Beth sydd yn cysylltu'r tri bardd T.H. Parry Williams, Donald Evans ac Alan Llwyd?
- 10) Pa Ysgrifennydd dros Gymru a fedyddiwyd â'r ffugenw Dai Bananas?
- 11) Pa fardd Cymreig a gyfansoddodd y gerdd sy'n dechrau gyda'r geiriau:  
*What is this life full of care  
We have no time to stand and stare?*
- 12) Cysylltir y plwyfi neu'r pentrefi canlynol a thri o gewri diwylliannol Cymru, Llanbrynmair, Llanuwchllyn a Rhyd-ddu. Pwy a ddygodd enwogrwydd i'r ardaloedd hyn?

Anfonwch eich atebion at **T.M.Thomas**, Tirallen, Llanwrda erbyn 10 Hydref.

### Cymdeithas y Deillion

Braf dilyn gyrfa cyn ddisgyblion, yn enwedig un sydd yn disgleirio yn ei faes. Wedi graddio'n dda ym Mhrifysgol Llundain symudodd Keith Little, mab hynaf Peter Little, Ffair-fach (cyn-rheolwr ffatri laeth Llangadog) a'i briod Paula Little o un cwmni busnes mawr i'r llall. Wedi dal swydd bwysig gyda'r BBC fe'i perswadiwyd i ymuno â BT. Ar 18 Mehefin priododd â Clare Cope, ond yn hytrach nag anrhegion arferol priodasol, gofynnwyd am arian i'w rannu i gymdeithasau elusennol. Mae eu mab hynaf yn ddiweddar, yn dioddef nam ar ei olwg ac maent wedi cofio Cymdeithas y Deillion Llandeilo a'r Cylch.

Dymuna holl aelodau Cymdeithas y Deillion oes hir a hapus, a llwyddiannau iddo yn ei waith ynghyd â bywyd priodasol cysurus iddo ef a Clare.

Gwerir arian y Gymdeithas - a godwyd yn bennaf ar ddiwrnod Deillion Llandeilo a'r Cylch - er lles a hapusrwydd yr hanner cant o ddeillion a phobl rhannol ddall yr ardal. Mewn oes pan nad yw'n arfer gan bobl roi o'i hamser i gymdeithasau elusennol, estynnwn groeso i chi ymuno â'r Gymdeithas.

**Adrian Jones**

Cadeirydd Cymdeithas Deillion Llandeilo a'r Cylch

### CYSTADLEUAETH!

Cyfle i ennill tocyn gwerth £10 i'w wario yn Siop y Cennen! Atebwch y cwestiwn isod a'i anfon at: Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo SA19 6HW neu e-bostiwch eich ateb at: [danielthomas@menterbrodinefwr.org](mailto:danielthomas@menterbrodinefwr.org) cyn 18 Medi 2011.

**Ym mhle cynhelir Gŵyl Fwyd  
Blas Tywi eleni?**

**Ateb:**.....  
**Enw:**.....  
**Cyfeiriad:**.....

Ateb cystadleuaeth Gorffennaf/Awst: Catrin Morgan  
a'r enillydd oedd: **Gwyneth Southgate**, Pendref, Llangadog

### SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN  
LLYFRAU \* CRYNODDISGIAU \* CARDIAU  
CREFFTAU \* FIDEOS \* C.D.ROMau \* CASETIAU  
*Telerau arbennig i ysgolion a chymdeithasau*  
☎ (01269) 595777 ✉ [hywelbowen@googlemail.com](mailto:hywelbowen@googlemail.com)



## Noson ganol haf yn tywynnu i elusen leol

Cynhaliwyd noson elusennol ganol haf ar gyfer Ymchwil Cancr Cymru yn Nhŷ Drenwydd ym Mharc Dinefwr, gan godi swm syfrdanol o £5,950.

O fewn y digwyddiad llwyddiannus cynhaliwyd raffl, ocsiwn ac ocsiwn dawel gyda chyfle i'r cyhoedd i fwynhau bwffe a cherddoriaeth fyw. Rhoddwyd y cyfateb o werth y gwobrau raffl, sef £546, gan Banc Barclays, a chododd yr ocsiwn, a oedd yn cynnwys pethau megis gwersi coginio, gwers canu a gemwaith, £1,354 gyda Banc Barclays unwaith yn rhagor yn ychwanegu £750 i'r swm. Casglwyd gweddill yr arian drwy werthiannau tocynnau a rhodd-daliadau.

Daeth 110 o bobl i'r digwyddiad gan gynnwys Helen Herbert, Angharad Rees a Susan Miles, aelodau o staff Barclays, ynghyd â threfnydd y digwyddiad, Helen Pugh, Llandeilo.

Dywedodd Helen: "Rwyf wedi codi arian ar gyfer nifer o elusennau cancr yn y gorffennol trwy wneud teithiau cerdded nodedig ond dyma'r digwyddiad cyntaf i mi ei drefnu fy hunan.

Yn anffodus y dyddiau hyn mae gan bob un ohonom deulu neu ffrindiau sydd wedi eu heffeithio gan gancr – yn ddiweddar collais ffrind da a chydweithwr i'r salwch - a rydym i gyd yn ymwybodol o ba mor hanfodol yw hi i ddarganfod ffyrdd newydd o atal, gwneud diagnosis a thrin cancr.

Dyma'r rheswm pam y penderfynais i gefnogi Ymchwil Cancr Cymru a threfnu'r noson elusennol Ganol Haf hon. Ni allwn fod wedi gwneud hyn heb gefnogaeth y cymwynaswyr a phawb a ddaeth i'r digwyddiad."

Dywedodd Cyfarwyddwraig Elusennol Ymchwil Cancr Cymru, Liz Andrews: "Rydym yn hynod o ddiolchgar am yr arian a gododd Helen i Ymchwil Cancr Cymru, ac o ganlyniad medrwn barhau i ariannu ymchwil arloesol i fewn i gancr a'i driniaeth yng Nghymru."

# # # # #

Mae **Ymchwil Cancr Cymru** a sefydlwyd yn 1966 yn hollol wahanol i'r elusen genedlaethol. Mae'r Pencadlys a'r Cyfleuster Ymchwil wedi eu lleoli ar faes Ysbyty Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Mae'r holl arian sydd yn cael ei godi gan Ymchwil Cancr Cymru yn cael ei wario yng Nghymru. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i dalu am brosiectau ymchwil arloesol cancr gan wyddonwyr o gwmpas Cymru. Mae Ymchwil Cancr Cymru hefyd yn ariannu yr unig lyfrgell un-bwrpas ymchwil i gancr yng Nghymru. I ddarganfod sut y medrwn drefnu digwyddiad eich hun, cysylltwch â thîm codi arian Ymchwil Cancr Cymru ar 02920 316976 neu [crw@wales.nhs.uk](mailto:crw@wales.nhs.uk)

## Cynhadledd Sefydliad y Merched

Croesawyd Cynhadledd Flynyddol SyM Cymru i Sir Gâr eleni a bu nifer o aelodau canghennau ardal Y Lloffwr, sef Brechfa, Cwrt Henri, Llansawel, Pumsaint a Trap yn cymryd rhan yn y ddwy noson o adloniant bythgofiadwy a gynhaliwyd yn Theatr Elli, megis 'Nawr a Slawer Dydd'. Roedd yn brofiad gwefreiddiol a'r theatr yn eithaf llawn ar y ddwy noson. Cafodd y gynulleidfa eu hudo ar siwrnai hyfryd o amgylch Sir Gâr mewn geiriau, cân a dawns, yn ddifyr ac yn ddigri, yn llawn atgofion ac yn fwrlwm o gyffro.

Cafwyd ymateb gwyach a phawb wedi mwynhau mas draw.

*Cân actol - 'Y Ddwy Ŵydd Fach' gyda Beryl Owen a Pat Thomas, SyM Trap, a'r côr yn y cefndir.*



*Sgets : Jobyn onest yw jobyn yr heijin technishan! Pat Llewelyn a Beryl Owen, SyM Trap.*



*Mynachod Abaty Talylychau sef Wendy Griffiths a Jeanette Thomas, SyM Llansawel.*

## DATHLU'R CANT

Ar 18 Mai dathlodd **May Davies**, Hafan Deg, Cwmifor ei phen-blwydd yn 100 oed yng nghwmni ei theulu, ei pherthnasau, ei ffrindiau a'i chymdogion yn Neuadd y Pentref – sef Ystafell Ddarllen Cwmifor. Daeth tyrfa luosog ynghyd yn y prynhawn i ddymuno'n dda iddi ac i ymuno yn y dathlu arbennig hwn. Cyn i bawb fwynhau'r bwffe a baratowyd, estynnodd Joseph gair o groeso i bawb a gofynnwyd bendith gan y Parchedig Lynn Evans. Darllenodd Anne benillion a oedd wedi eu paratoi ar gyfer yr achlysur yma yn olrhain hanes ei mam. Roedd y penillion wedi eu llunio gan un o feirdd y talwrn - Ken Griffiths o ardal Aberteifi:

Croesawn chwi yn gynnes  
I ddathlu yn ddi-oed  
Am fod 'na wraig arbennig  
Yn cyrraedd ei chant oed.

Ei henw'n Margaret Mary  
A pheidiwch gofyn pam  
Mae'n May neu Gett i'w ffrindiau,  
Ond i ninnau, mae hi'n mam.

Fe gafodd hi ei geni  
A'i magu yn Rhiwlas  
Ar lan yr afon Cothi  
A'r dolydd bythol las.

I Arthur ac Elizabeth  
Yr oedd hi'n un o saith  
A'r hwyl ar wresog aelwyd  
Yn gychwyn da i'w thaith.

Fe aeth i'r Ysgol Gynradd  
A'r cochni ar ei grudd,  
'Rôl cerdded i Lanegwad  
Yn ôl a blaen bob dydd.

Ynghyd â'r llyfrau ysgol  
Yn ychwanegu'r baich  
'Roedd pecyn bwyd ei chinio  
Yn ddiogel dan ei braich.

Fe gafodd addysg eto  
Yn Ysgol Pentre-poeth  
A hwnnw yn ei gwneuthur  
Yn glyfar ac yn goeth.

Bu'n *dairy maid* am gyfnod  
Yn *Home Farm Golden Grove*  
A'r dyddiau hapus yma  
Yn eglur ar ei chof.

Fe aeth yn *nanny* wedyn  
I warchod Robin bach  
I'r *Peels* ym mhlas Taliaris  
Gan rannu'r gwyliau iach.

Priodi wnaeth 'rôl hynny  
Gan fynd yn wraig Tanlan  
Ac esgor ar ddau blentyn  
Sef Joseph ac yna Anne.

Ac yna gydag amser  
Fe ddaeth hi yn fam-gu  
I dri o wŷr ac wyres  
Sy'n bwysig iddi hi.

Fe ddaeth cenhedlaeth arall  
I harddu'r goden hon  
Tri gor-wŷr a gor-wyres  
Yn frigau newydd sbon.

Bu Ysgol Sul a Seiat  
A chwrdd Pontynyswen  
Yn destun canmol ganddi  
A'i ganmol hyd y nen.

Yn Annibynwraig wedyn  
Fe'i trowyd 'nôl y sôn  
Ond gwn er hyn ei bod hi'n  
Fethodyn yn y bôn.

Mae'n dal i fod yn siriol  
Mae'n dal mewn hwyliau llon  
A diolch wnawn yn ddyddiol  
Fod gennym fam fel hon.

Boed iddi ben-blwydd hapus  
Dymunwn yn gytûn  
A hithau wedi derbyn  
Cyfarchion hael y *Queen*.

Yn ystod y prynhawn cafwyd ymweliad gan blant Ysgol Cwmifor gyda'u Prifathrawes a'r gynorthwywraig, a hyfryd oedd eu gweld a'u clywed yn canu Pen-blwydd Hapus i May. Dymuniad May ar yr achlysur yma oedd derbyn rhoddion i Dŷ Hafan.

Mae hi'n gwerthfawrogi yn fawr iawn y rhoddion ynghyd â'r llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ac am ddiolch i bawb am eu haelioni a'u caredigrwydd. Diolch hefyd i bawb a alwodd i'w gweld yn Hafan Deg a phob galwad ffôn a dderbyniodd. Cafodd ddiwrnod wrth ei bodd - diwrnod i'w gofio a'i drysori.

Gwelir May Davies yn trosglwyddo siec am £1,560 sef y swm a gasglwyd i Phil Thomas - Swyddog Codi Arian Cymunedol Hosbis Plant Tŷ Hafan.





## LLWYDDIANT C.Ff.I LLANGADOG!

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus dros ben i Glwb Ffermwyr Ifanc Llangadog o dan Lywyddiaeth Eifion Jones, Brynmelyn a'r Cadeirydd Dylan Davies, Maesadda. Mae'r aelodau wedi amlygu eu doniau mewn amryw o feysydd ac wedi magu hyder, dealltwriaeth a phrofiad wrth wneud hynny.

Eisteddfod Ffederasiwn Sir Gâr yw un o uchafbwyntiau cyntaf calendr y Ffermwyr Ifanc a bu aelodau Llangadog wrthi'n ddiwyd yn paratoi ar ei chyfer. Enillwyd nifer o wobrau a'r uchafbwynt oedd ennill y darian am gystadlaethau gwaith cartref. Aeth nifer o'r aelodau ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod C.Ff.I Cymru yn Aberystwyth gan gynnwys y parti llefaru, Ffion a Heledd Thomas a gipiodd yr ail safle yn canu deuaud, a'r côr o dan arweinyddiaeth Nia Clwyd a'r gyfeilyddes Gillian Thomas a ddaeth i'r trydydd safle. Dechrau da i'r flwyddyn felly!

Mentrodd rhai o'n haelodau i Gaerfyrddin ar noson rewlyd o Ragfyr er mwyn profi eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd yng Nghwis y Sir! Yn amlwg, mae aelodau deallus a chlyfar yn Llangadog gan iddynt gipio'r wobr gyntaf yn rownd y Sir cyn mynd ymlaen ac ennill y trydydd lle yng nghystadleuaeth Cymru. Llongyfarchiadau i Ben Jones, Dewi Howells, Luned Henry, Maredd Tomos a Ffion Davies. Cynhaliwyd dawnys Llysghenhades y Sir yn Abertawe ar ddechrau'r flwyddyn newydd a braf oedd mynd i gefnogi un o'n haelodau, Rachel Hughes a oedd yn un o'r Dirprwyon i'r Llysghenhades.

Ym mis Chwefror bu'r aelodau'n paratoi'n egniol ar gyfer Cystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant o dan ofal un o'n harweinyddion, Gillian Carpenter. Braf nodi bod yr aelodau ifanc wedi ymroi a pherfformio'n hyderus dan adain rai o aelodau mwy profiadol y Clwb. Da iawn chi!

Yn flynyddol ym mis Ebrill, cynhelir ein cyngerdd – cyfle i bawb amlygu eu doniau a'u talentau creadigol. Roedd Neuadd Llangadog dan ei sang a chafwyd anerchiad pwrpasol gan Lywyddion y noson sef Joseph a Glenda Davies, Fferm Cwmifor. Noson arall o fwynhad! Daeth newid trywydd erbyn diwedd y mis pan gynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes y Sir. Bu nifer helaeth o'r aelodau yn cystadlu yng Nghystadleuaeth y Stocmon Iau ac enillwyd y gystadleuaeth creu arwydd ar gyfer y Rali. Gwelwyd yr arwydd lliwgar hwn am gyfnod wedi hyn ar yr A40 rhwng Llangadog a Manordeilo.

Wrth i Flwyddyn y Ffermwyr Ifanc agoshau i'w therfyn, daeth llwyddiant anhygoel pellach yn Rali flynyddol Ffederasiwn Sir Gâr a gynhaliwyd ar safle Nantyci. Enillwyd y Darian Iau gan y Clwb a daeth y Clwb yn gyfartal gyntaf gyda chlwb Dyffryn Cothi yn yr Adran Hŷn. Rali i'w chofio! Wedi'r Rali bu rhai cystadluwyr wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer cystadlu yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Cafwyd llwyddiant eto gyda Luned Henry, Maredd Tomos a Heledd Roberts yn ennill y gystadleuaeth 'Ar y Newyddion', Carys Jones yn cystadlu yn y gystadlaethau barnu stoc, Dylan Davies yn cneifio, Merched Llangadog yn tynnu'r rhaff, a Dylan Williams a Nicky Crocker yn chwarae rygbi dros Sir Gâr dan hyfforddiant Aled Williams, un o arweinyddion y Clwb. Gwnaeth eu hydrech penigamp gyfrannu at lwyddiant Ffederasiwn Sir Gâr a enillodd Dlws Undeb Amaethwyr Cymru am y trydydd tro yn olynol.



Coronwyd ein blwyddyn gyda'n Sioe Amaethyddol ym mis Awst. Roedd y cae yn fwrlwm o gystadlu yn ystod y diwrnod gyda phobl o dros Dde Cymru ac ymhellach yn teithio i gystadlu yn nosbarthiadau'r defaid, gwartheg, ceffylau a'r babell arddwriaethol. Bu'r tywydd yn garedig am y mwyafrif o'r dydd a chafwyd dawnys ddiffr yng nghwmni'r band lleol 'Amheus' (band a sefydlwyd yn wreiddiol o fewn y Clwb), gyda'r babell o dan ei sang a phawb yn mwynhau.

Blwyddyn lwyddiannus dros ben felly i Glwb Ffermwyr Ifanc Llangadog! Mae ein diolch yn fawr, fel aelodau'r Clwb am yr holl gymorth yr ydym yn derbyn gan arweinwyr, hyfforddwyr, rhieni a chefnogwyr. Rydym yn lwcus fel Clwb ein bod yn fwrlwm o bobl ifanc sy'n mwynhau cwrdd a chymdeithasu a mentro i gystadlu. Yn nwylo'r to iau hwn mae dyfodol cefn gwlad a rhaid adeiladu ar y sgiliau hyn sy'n cael eu meithrin yn gynnar er mwyn diogelu ein cymunedau a'n dyfodol.

## Gŵyl Fwyd Blas Tywi

Parc Dinefwr, Llandeilo yw'r lle i fod ar 10 ac 11 Medi pan gynhelir Gŵyl Fwyd **Blas Tywi**. Gŵyl fwyd gymunedol a drefnir gan Fenter Bro Dinefwr yw **Blas Tywi** gyda'r prif ffocws ar ddathlu a hyrwyddo cynnyrch lleol yn ogystal â hybu hanes, diwylliant a thirwedd Dyffryn Tywi. Mae uchafbwyntiau'r penwythnos yn cynnwys arddangosfeydd gan y cogyddion Anthony Evans, Nerys Howell a Daniel Williams yn ogystal â sesiwn goginio gydag enwogion lleol. Yr enwogion fydd yn cymryd rhan fydd Emyr Wyn, Aled Samuel a Rhian Morgan yn ogystal â nifer o enwau adnabyddus eraill. Bydd rownd derfynol 'Ar y Fwydlen' yn cael ei chynnal hefyd lle bydd Clwb Rygbi Llansawel yn brwydro yn erbyn enillwyr rownd gyn-derfynol ardal yr Aman.

Bydd cyfle i ddysgu sut mae gwneud bara, sudd afal, sut i dyfu llysiau, addurno cacennau bach a bydd sesiwn ar lysieuath meddygol. Bydd digon o weithgareddau i ddifyrnu'r plant gan gynnwys gweithdai coginio ac addurno llieniau sychu llestri yng nghwmni Lisa Fearne o'r Pumpkin Patch, jambori gyda Martin Geraint (Cegin Twts), sesiwn stori gyda Esyllt Harker ac ymweliadau gan Sam Tân, Sali Mali a Holi Hana. Bydd llwyfan perfformio hefyd yn rhan o'r ŵyl a bydd Aelwyd Llyn y Fan, Band Arian Rhydaman, Côr Sainteilo, Ysgol Gymraeg Teilo Sant, Ysgol Tre-gib a Dawnswyr Penrhyd yn diddanu.

Mae nifer o gynhyrchwyr bwyd lleol eisoes wedi archebu lle yn y digwyddiad felly mae'n argoeli i fod yn benwythnos i'w gofio. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnal Diwrnodau Treftadaeth Agored, sy'n golygu mynediad am ddim i Blas Dinefwr trwy'r penwythnos. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn trefnu teithiau cerdded o amgylch y parc i'r rheini sydd am fwynhau'r natur lleol.

Mynediad i'r ŵyl: £3. Plant cynradd yn ddi-dal. Cychwyn am 10am. Cefnogir y digwyddiad gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Llandeilo.







## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### YSGOL GYNRADD TALYLLYCHAU

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Tallyllychau y cyfle gan Mr Paul Smith i dderbyn hyfforddiant cynnal a chadw beiciau. Diolchwn iddo am roi o'i amser i ni.

Buodd y plant iau ar ymweliad â Pharc Dinefwr i gymryd rhan yng Ngŵyl y Tywysogion. Cafwyd prynhawn hwylus iawn.

Daeth ymwelwyr arbennig i'r Ysgol yn ddiweddar. Buodd Janet o Fferm Pantglas ger Llandysul yn dangos casgliad o adar. Cafodd pob plentyn gyfle i hedfan y dylluan.



Roedd diwrnod hwyl Ysgol Tallyllychau yn llwyddiannus iawn eleni. Cafwyd amryw o stondinau a gweithgareddau ar y cae. Buodd Brigad Ddan Llandeilo yn dangos i ni'r peryglon yn y gegin, cafodd y plant eu difyrru gan ddiddanwr syrcau a gwnaeth y plant a'r oedolion ei fwynhau yn fawr iawn. Rhostiwyd mochyn yn y nos, ac mae'n dyled yn fawr i Geraint Davies am ofalu am y gwerthu a Dewi Roberts, Ffair-fach. Daeth y noson i'w therfyn ar ôl dawnio i ddisgo Henry Stokes a'r band *Bet On Red*. Codwyd swm ardderchog o dros £3,500 tuag at gronfa Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Diolch o galon i bawb a wnaeth gyfrannu a chefnogi ein Diwrnod Hwyl.

### YSGOL GYNRADD LLANGADOG

Cafwyd noson o Gerdded Noddedig Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Llangadog yn ddiweddar. Er y tywydd ansefydlog roedd y gefnogaeth yn arbennig gyda nifer fawr o blant, rhieni a chyfeillion yn ymdrechu i gyflawni'r cwrs pum milltir. Mae'n edrych yn debygol ein bod wedi gwneud elw o tua £4,000 ac mae'n diolch ni'n fawr i'r rhai hynny a gafodd eu noddi neu a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd arall.

Rhaid diolch yn arbennig i Menna Richards a fuodd yn rhan o'r trefniadau ac a sicrhodd nawdd cyfatebol o £750 trwy haelioni Banc Barclays.



*Cyngor Ysgol yn derbyn y siec gan Menna Richards*

### YSGOL GYNRADD LLANDEILO

Y mae Ysgol Gynradd Llandeilo wedi derbyn ail Faner Werdd o dan gynllun cenedlaethol eco i ysgolion. Dywedodd cydlynnydd eco'r ysgol Delyth Rees i'r diwrnod asesu fod yn llwyddiant mawr. Yn ychwanegol at ennill y Faner Werdd dewiswyd yr ysgol i arddangos amcanion eco i aelodau staff o ysgolion eraill a'u helpu i wneud cais am gael eu cynnwys yn y cynllun.



*Disgyblion ysgol Tallyllychau yn ymweld â Pharc Dinefwr.*

### YSGOL GYMRAEG TEILO SANT

Cafodd Blwyddyn 6 Ysgol Gymraeg Teilo Sant Noson Rhost Mochyn yng Nghae William, Llandeilo i ffarwelio â'r ysgol.

Yn yr arwerthiant prynodd Carwyn Davies botel o chwisi am £125, a chyfrannodd Alun Owens £100, cyfanswm o £225 i'r ysgol. Pob lwc i'r disgyblion yn eu hysgolion newydd yn mis Medi.





## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### YSGOL YR EGLWYS LLANFYNYDD

#### Agoriad Swyddogol Gardd Gymunedol Synhwyrdd Llanfynydd

Ar brynnawn cawodlyd ddechrau Gorffennaf daeth torf ynghyd ar gyfer agoriad swyddogol Gardd Gymunedol Synhwyrdd Llanfynydd.



Yn bresennol roedd staff, rhieni a chyfeillion Ysgol yr Eglwys Llanfynydd. Hefyd croesawyd y Parch. Ganon Roger Hughes; y Parch. Brian Witt, Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Tŷ Ddewi; Thomas Lloyd, Uchel Siryf Dyfed; Mansel Charles, Cynghorydd Sir; Simon Troake, Swyddog Prosiect Trefi Taclus Cyngor Sir Gâr a'r artist lleol, Janet Hardy.

Cafwyd gwasanaeth byr dan ofal y Parch. Ganon Roger Hughes a'r Parch. Brian Witt a chysegrwyd yr ardd a'r llwybr newydd sy'n rhedeg drwy dir yr eglwys. Yna agorwyd yr ardd yn swyddogol wrth i'r Uchel Siryf Thomas Lloyd dorri'r rhuban ar y gysgodfan.

Wrth agor yr ardd diolchodd Mr Williams, Prifathro'r ysgol i bawb am eu cyfraniadau a'u gwaith caled yn sefydlu'r ardd ac yn arbennig i'r noddwyr sef Cwm Amgylcheddol; Cynllun Trefi Taclus Cyngor Sir Gâr a Chyngor Cymuned

Llanfynydd. Pwysleisiodd y Parch. Ganon Roger Hughes bwysigrwyd yr ardd gymunedol a'r ddolen barhaol rhwng yr ysgol, yr eglwys a'r gymuned.

Daeth cyfle'n ogystal i edmygu'r ardd gyda'i gwelyau blodau, ffrwythau a llysiau'n llawn, y berllan fechan, y byrddau picnic a'r gysgodfan, y troellwyr a'r clychau gwynt a'r darnau ysblennydd a grewyd gan Janet Hardy, plant yr ysgol a'r gymuned. Gwledd yn wir i'r synhwyrddau.

Yn dilyn y gwasanaeth bu adloniant gan blant yr ysgol. Yna cafwyd gwledd o fefus a sgoniau gyda jam a hufen.

Trwy lwc a bendith fe gadwodd y glaw i ffwrdd am weddill y prynhawn a dilynwyd y te mefus gan amrywiol weithgareddau difyr megis enwi'r iâr a'r ceiliog, dyfalu le'r oedd y trysor a nifer y darnau lego. Hefyd cafwyd prynhawn o gemau i bob oedran cyn gorffen y dydd gyda ras hwyaid.

Unwaith yn rhagor, trwy gefnogaeth y gymuned, gwaith caled ac ymroddedig y staff a brwdfrydedd y disgyblion pwysleiswyd bwysigrwyd Ysgol Llanfynydd yng nghalon y pentref a'i drigolion.



### YSGOL GYNRADD BRECHFA

Bu pythefnos olaf y tymor yn brysur dros ben, gyda'r plant hynaf yn ymweld ag ysgolion uwchradd lleol, dathlu pen-blwydd Gymanfa Dyffryn Cothi, paratoi cynnyrch ar gyfer Carnifal Nantgaredig a chodi tatws o ardd yr ysgol. Cynhaliwyd prynhawn o gemau yng nghwmni Sioned Fflur, Swyddog yr Urdd ac yna picnic i ddilyn. Prynhawn gwerth chweil!



Cawsom ddiwrnod braf ar gyfer ein mabolgampau a phawb yn mwynhau'r gemau tîm. Cafodd rhieni a ffrindiau gyfle i gymdeithasu gyda phaned o de a'r plant yn llawn haeddu lolipop!

Bu disgyblion B15 a 6 yn derbyn hyfforddiant beicio. Buont wrthi'n ddyfal drwy'r dydd yn dysgu gofalu am y beic ynghyd â sgiliau beicio.

Roeddy cyngerdd ddiwedd blwyddyn yn llwyddiannus iawn â'r plant yn dangos eu doniau. Gwych iawn!

Trist yw ffarwelio ond rydym fel ysgol yn gyrru ein dymuniadau gorau i Ffion a Meg wrth iddynt symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Mae cyfnod Miss Ffion Marks hefyd yn dod i ben. Diolchwn a dymunwn rhwydd hynt iddi yn ei swydd newydd.

*Disgyblion Ysgol Brechfa yn cynnal cyngerdd diwedd blwyddyn yn Neuadd Brechfa.*





## ~ O GWMPAS BRO DINEFWR ~

### SIOE TRAP 2011



Lluniau : John Davies

Lluniau o'r cornel top chwith : Eric Williams, Llanymddyfri a'i geffyl, Pencampwr yr Adran C 'Synod Ruby Gem'; Helen While ar gefn 'Cilsane Cymru Du' gyda'r perchennog Helen Ralph; Adrian a Tomos Davies, Glanbrydan yn derbyn cwpan oddi wrth Lywydd y Sioe, Dan Thomas; arddangosfa o hen dractorau a pheiriannau ar ddiwrnod y sioe.

### CEFNOGI ELYRCH ABERTAWE



Mae un tŷ yn Heol Newydd, Llandeilo wedi cael gweddnewidiad arbennig yn ddiweddar. Penderfynodd Michael Rees, y perchennog beintio ei dŷ yn lliwiau tîm pêl-droed Elyrch Abertawe er mwyn dathlu bod y tîm wedi cael dyrchafiad i'r Uwch Gynghrair ac er mwyn codi arian i elusennau. Pob hwyl i'r Elyrch y tymor hwn!

Llun: John Davies

### LLWYDDIANT STEFFAN



Bu Steffan Glyn Morgan, Bronyglyn, Llanfynydd yn llwyddiannus iawn yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd eleni. Cafodd y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth Arddangoswr Ifanc Gorau gyda'r Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Balwen. Cafodd ei chwaer Carys y bedwaredd wobwr. Da iawn! Gweler Steffan gyda beirniaid y gystadleuaeth.